

CASTELL Y BLAIDD



GLENYS MAIR LLOYD

SW. GOD

Cynnwys

1	Ogof y Bleiddiaid	9
2	Y Frenhines Sha	17
3	Pwyllgor y Bleiddiaid	21
4	Yr Helwyr	27
5	Brwydr Erchyll	33
6	Hunllef Ofnadwy	36
7	Cymdoges yn galw heibio	38
8	Peryg Bywyd	43
9	Herwgipio'r Trysor	46
10	Cig i Swper	50
11	Llanastr yn y Llys	55
12	Problem	62
13	Brecwast i'r Helwyr	69
14	Antur Ddewr	75
15	Y Bwthyn Clyd	81
16	Dewis Rina	85
17	Hela'r Ysgyfarnog	90
18	Y Dibyn Serth	98

1 – Ogof y Bleiddiaid

Un tro, amser maith yn ôl, parhaodd y gaeaf am dair blynedd.

Bob dydd, gorweddaï eira trwm dros yr holl wlad. Glynai'n dynn at greigiau'r mynyddoedd. Glynai'n dynnach fyth at laswellt y cwm.

Doedd dim golwg o'r haul na'r lloer na'r sêr. Doedd dim golwg o awyr las y dydd na blanced borffor y nos. Doedd neb yn gwybod pam.

Ond cofiai rhai weld peli mawr tanllyd yn llosgi trwy'r awyr ac yn disgyn yn fflamgoch i'r ddaear. Credai rhai mai diferion anferth o waed oeddynt, yn glawio dros yr holl wlad. Credai eraill bod y duwiau'n eu cosbi am eu drygioni a'u creulondeb.

Yna, dechreuodd cymylau sinistr o fwg lifo dros y mynyddoedd fel niwl, a thros y dyffrynnoedd a'r tai, gan wneud i bawb dagu a phesychu'n ddychrynlyd.

Beth oedd achos yr holl helynt, tybed? Ac i ble'r aeth yr haul a'r lloer a'r sêr?

Yna, yn sydyn, trodd y tywydd yn oer iawn.

Chwipiai'r gwynt dros y tir, yn oer ac yn fain fel cylllell. Ysgubai'r corwynt trwy'r coed. Chwythai'r dail oddi arnynt yn bell, bell i ffwrdd, i

bellafoedd tir Cymru, hyd at y môr, hyd at deyrnasoedd y Saeson yn y De a'r Dwyrain. Roedd pobman dan rew – yr afonydd a'r llynnoedd, y caeau yd a'r melinau.

Bob nos, stelciai'r Bleiddiaid i lawr at y pentref, i ddwyn ac i ddinistrio.

'Aa-i-w-w!' atseiniai eu lleisiau trwy'r fforestydd, trwy'r tywyllwch, wrth iddynt annog ei gilydd i fynd allan i hela.



Roedd y bobl a'r plant ar lwgu. Rhynnent wrth lygedyn o dân yn eu bythynnod tlawd. Teimlai'r gwartheg a'r defaid yn rhynllyd yn eu cytiau. Roedd pawb yn denau ac yn esgyrnog – pawb ond y Brenin a'i gyfeillion yn Llys Mathrafal.

Heno, draw ar ben y mynydd, yn Ogorf y Bleiddiaid, roedd Rina'n syllu allan o'i ffau. Dawnsiai'r plu eira rhwng bysedd moel y brigau. Glaniodd un ar flaen ei thrwyn, llithro i lawr i'w cheg, a rhewi ar ei gwefus.

'Wyddost ti be, Gro,' meddai hi wrth ei ffrind gorau, crwt o flaidd digon digywilydd ar adegau.

'Be?'

'Wel,' atebodd Rina – a daeth awydd sydyn i farddoni drosti unwaith eto –

'Mae'r rhacadrau wedi rhewi,
ar y creigiau,
fel dannedd
hen ddreigiau,
yn bigog
ac yn gas –'

'Hy! 'Run fath â'r pibonwy 'na sy gen ti i fyny dy drwyn!' atebodd yntau.

'A tithau hefyd, y lobyn,' meddai hithau'n chwareus.

'Grrr! Digon gwir. A-a-i-i-? Awn ni allan i chwarae?'

'Ond mae hi'n beryg bywyd, gig-gag,' dwrdiodd

hi, 'yng nghanol y rhew a'r eira. Na, does 'na ddim gobaith i mi fynd allan i sglefrio efo ti heddiw. Mae'r Frenhines yn flin fel cath wyllt.'

'O? Pam?' gofynnodd Gro.

'Dwi'm yn gwybod, 'sti. Cofio am Ra mae hi, mae'n siŵr, a beth ddigwyddodd iddo fo. Mae hi eisiau i mi aros i mewn i helpu yn y tŷ.'

'Helpu? Hy! Diflas,' atebodd Gro, 'efo'r bysedd pathetig 'na 'sgen ti. Crafangau mawr 'sgen i, sbia!'

'Ti'n lwcus. O! Mae 'nhroed i'n brifo hefyd,' cwynodd y ferch.

'Twt, mae dy droed di wastad yn brifo, yr hulpan wirion,' dywedodd y blaidd.

'Ond ges i ddamwain, wyt ti'm yn cofio?'

'Cofio'n iawn, ac arnat ti oedd y bai. Chwilio am esgus i gael aros i mewn i farddoni wyt ti, 'nte? Sgrifennu trwy'r dydd wrth y tân, 'run fath â'r boi 'na lawr yn Llys y Brenin! Dyna lle dylet ti fod! Achos nid blaidd go iawn wyt ti, nage, Rina?'

'O, paid â dweud y ffasiwn beth!' atebodd hithau'n syth a dechrau crio. 'Af i byth yn ôl yna, BYTH!'

'Y-hy, iawn.' Tynnodd Gro ei dafod allan arni'n sbeitlyd.

'Wel, by-by-se-se-sedd 'sgen i,' mwmianodd Rina'n drist, yn iaith y Bobl. Methodd hi'n lân â chael y geiriau allan o'i cheg. Methodd â chofio sut i siarad 'run fath â nhw, rhag ofn i'w hunllefau ddod 'nôl.



'Ti'n galw rheina'n fysedd? A dy ewinedd di'n llawn o faw a llaca? Ha ha!' tynnodd Gro arni. 'Os wyt ti'n gofyn i mi, maen nhw'n debycach i grafangau erbyn hyn.'

'Grrr. Digon gwir,' dywedodd hi'n syn, yn iaith y Bleiddiaid.

'Rina!' arthiodd Sha y Fleiddes Fawr ar ei merch o'i chegin yn nyfnderoedd yr Ogof. 'Tyrd i mewn ar unwaith! Neu mi fyddi di'n wlyb diferol. Sâl fyddi di eto, gei di weld. Gwranda, dwi am i ti warchod y babi heddiw, i mi gael mynd allan i hela efo'r cnud.'

'Gw! Gwych!' bloeddiodd Gro o'r drws. 'Ga i fynd, Eich Mawrhydi? Gaiff ein criw ni fynd lawr i'r pentref i godi twrw? Curo drysau, dwyn, chwarae ysbrydion! Gaiff Rina- ?'

'Na chaiff wir, ddim ar unrhyw gyfrif,' mynnodd Sha yn awdurdodol. 'Dwi wedi cael llond bol ar dy giamocs di a dy fêts. Rhaid i ti eu cadw nhw mewn trefn. Rhaid i ti fod yn fwy cyfrifol, Gro. Rina! Wyt ti'n fy nghlywed i?'

Rhedodd y ferch yn syth i mewn i'r Ogof, ar ei phedwar. Gwelodd ei mam yn ogleuo'r awyr o'i chwmpas. Anelodd Sha at swp o esgyrn a orweddaï o dan dusw o flodau sychion yn y gornel. Blodau'r eithin a grug y mynydd. Dyma fedd y Brenin Ra, man sanctaidd i holl fleiddiaid y deyrnas.

'O, Ra! Dwi'n dy golli di! Drato'r bobl! Drato'r Brenin Drwg!' wylodd hi uwchben y bedd.

Ar hyn, dychrynodd Rina a chlosio at ei mam.

'Paid â chrio, Mami. Rhaid i ni fod yn ddewr.'

'Ond beth wnawn ni, cariad bach, heb dy dad?' gofynnodd Sha.

Daeth dagrau i lygaid y Fleiddes Fawr. Cwtsiodd ei merch yn ei chôl ffwrlllyd, gynnes.

'Wyddost ti be, pwtan? Y babi ydi'r unig beth sgen i ohono fo ar ôl!'

'O!' sgrechiodd ei merch dros y tŷ. Gwingodd allan o freichiau ei mam. Rowliodd ei hun yn belen ar lawr. 'Ond be amdana i?' gofynnodd, yn ei siom.

'O ss-ââ-ss. Sori, pwt! Ti a Shwfflyn wrth gwrs. Tyrd yma, i ti gael dipyn o fwythau cyn i mi orfod mynd. A dyma i ti wreiddyn bach i'w grensian. Mi wnaiff o les i dy ddannedd di. Tydyn nhw ddim hanner digon miniog eto. Rwy'ti'n sbesial iawn, cofia. Dwn i ddim beth 'sw'n i'n ei wneud hebddot ti.'

'Hy!' gwgodd Gro o'r drws. 'Ond – TYDI HI DDIM 'RUN FATH Â PHAWB ARALL, NAC 'DI?' torrodd ar eu traws fel taran. 'Mae hi'n gloff yn un peth –'

'TAW!' Bu bron i'r Fleiddes Fawr frathu ei ben i ffwrdd. Llamodd ato a'i ysgubo allan trwy'r drws fel sbwriel. 'Y crymffast digywilydd! Gad lonydd iddi, wnei di? Mi ga i air efo dy dad yn nes ymlaen, yn y Pwyllgor. Dos i weld a ydi'r cnud yn barod. Dwi ar dân isio mynd allan i hela heddiw!'

'I-i, Fa-Fa Sha. Iawn, Madam Sha, s s-ââ. Sori,'

atebodd Gro yn ufudd, ar garreg y drws. Doedd fiw iddo beidio ymddiheuro!

'Ffarwél! *Www-a!*' ac i ffwrdd â fo.

Cododd y Frenhines ei phen yn urddasol. Aeth draw i eistedd ar y Fainc Frenhinol, mainc y Brenin Ra, gynt. Yno, cafodd Sha funud i feddwl.


Sgrialodd Rina ar draws yr Ogof i gyfeiriad y babi. Roedd Snwfflyn bach ar fin deffro, mae'n amlwg. Byddai'n siŵr o fewian am ei lefrith unrhyw funud.

Ar ôl ffarwelio â'r teulu bach yn Llys y Blaidd, llamodd Gro o'r Ogof i'r anialdir gwyn. Neidiodd o graig i graig trwy Gastell y Blaidd. Galwodd ym mhob ffau. Bu'n swnian ar bawb i fynd allan i hela. Galwodd ar y cnud i ddilyn Sha, Brenhines y Deyrnas.

Teyrnas y Bleiddiaid.

2 – Y Frenhines Sha

Roedd Sha ar bigau'r drain i fynd allan i hela. Llamodd yn sydyn oddi ar y Fainc Frenhinol.



Stelciodd o gwmpas yr Ogof yn ei thymor. Roedd ei llygaid yn fflachio fel fflamau, a'i thafod yn glafoerio. Crensiat ei dannedd miniog, un yn erbyn y llall.

'A-yrr-a-yrr!' udai'r Fleiddes Fawr, wrth iddi agor a chau ei cheg yn ffyrnig.

'O, be wna i?' poenai Rina, i mewn yn ei ffau o ffwr a fflwff a phlu, draw yng nghornel yr Ogof. 'Fydd 'na ddim dal arni hi rŵan!'

Roedd Rina'n adnabod ei mam yn bur dda, erbyn hyn. Roedd Sha yn medru gwylltio'n ofnadwy weithiau! A dyna'n union beth ddigwyddodd y funud nesaf.

Llamodd Sha at ddrws yr Ogof gan ddweud,

'Aha! Clywaf ddrewdod y Dynion, a'u cŵn a'u ceffylau, yn carlamu o bell. O gyfeiriad Craig yr Aderyn, dwi'n amau dim! *Aa-i-i-ww!* Awn ni allan i hela! *GRRAAWW!* Lladdwn ein gelynion!'

'*Iac-iac!* Ie, cytuno,' atebodd y Bleiddiaid yn ufudd, o gwert y Castell.

'Ond yn gyntaf,' dywedodd Sha, 'gawn ni Bwyllgor pwysig i drafod sut a phryd i ymosod. Dewch i mewn, bawb!'

'*Aa-i-ww!*'

Ofnai Rina ddweud dim na symud modfedd.

'Brysia, Rina! Well i tithau siapio hefyd,' gorchmynnodd y Frenhines, wrth iddi fynd ati'n frysio i dacluso'r lle. 'Fedri di dwtio tipyn ar dy deganau'n sydyn cyn y Pwyllgor, pwtan? A

gwarchod y babi, tra 'dan ni allan yn hela, os gweli di'n dda?'

Sbonciodd y ferch gloff allan o'i ffau glyd.

'Gwnaf siŵr.'

'Go dda. Ydi Snwfflyn wedi setlo ar ôl ei fwyd?' gofynnodd ei mam wedyn, gan fwrw golwg sydyn dros ei storfa o gig, aeron a gwreiddiau.

'Ydi, Mami,' atebodd y plentyn, wrthi'n helpu gorau gallai. Dyna un ffordd o blesio'i mam! 'Mae o'n chwythu swigod o lefrith dros ei geg i gyd!'

Gwenodd Rina'n annwyl arno. Dyna ddoniol oedd ei brawd bach, ac roedd Sha yn dotio ato.

'O, hen beth blêr ydi'r rhacsyn o ddoli bren 'ma 'sgen ti!' dwrdiodd Sha. 'Faint o weithiau sy eisiau i mi ddweud, mm? Ti'n eneth fawr rŵan. *Ych.* *Ych* a fi! Dos â hi o 'ngolwg i, wir, cyn i'r Pwyllgor gyfarfod. Mae'n llawn o ddrewdod y Bobl.'

'Iawn, Mami,' atebodd Rina'n drist, ond ni wyddai pam ei bod yn teimlo'n ddigalon. Cuddiodd ei phethau'n frysio o dan ei chlustog o ffwr cwningen. Meddyliai'n hiraethus am bob un.

Darnau o blisgyn wy. Gronynnau o yd. Cerrig bach o'r afon cyn . . . cyn beth? Cyn yr Eira Mawr?

Darn o esgid fach ledr. Esgid pwy? Esgid y ddol? Nage! Rhy fawr. Esgid Rina? Nage! Rhy fach. Esgid pwy, felly? A phwy ddaeth â hi i'r Ogof yng Nghastell y Blaidd?

A dyna'r darn bach o ddefnydd glas. Defnydd a

berthynai i'r Bobl. Sut oglau oedd arno? Lafant?
Drewdod, wir! Doedd Rina ddim yn hoffi clywed
Sha yn dweud y fath beth, ond eto ni wyddai pam.

Defnydd pwy oedd o? Defnydd at beth?

Ac o ble daeth y ddol?

Ni fedrai Rina gofio llawer. Dim ond hen atgof cas
o'r castell arall oedd ganddi. Castell y Brenin Hyll.
Lle ofnadwy! Na, af i byth yn ôl i fan 'na,
meddyliodd hi, BYTH!

'Brysia, Rina! Paid â breuddwydio gymaint!
dwrddiodd Sha. 'Mae'r Bleiddiaid yma!'

'*Iac, iac! Fa-fa Sha!* Ie, cytuno Madam Sha.'
Heidiai'r Bleiddiaid i gyd at garreg y drws. Safent
yno'n ufudd, cyn cael gwahoddiad i mewn.

'Sha! Sha!' rhybuddiodd y cnud. 'Y Brenin Drwg!
A'r Helwyr! Maen nhw ar ei ffordd i fyny yma! I
Gastell y Blaidd!'

3 – Pwyllgor y Bleiddiaid

Ymgasglai'r cnud y tu allan i ddrws yr Ogof. Roedd
hi wedi stopio bwrw eira. Roedd y gwynt oer a
chwythai dros gwrth y Castell wedi tawelu.

'O?' atebodd Sha, yn ffroenuchel. 'Ar eu ffordd?
Yr Helwyr a'r Brenin? Dwi'n gwybod hynny'n
barod! Dwi'n medru eu gwynto'nhw! Ond fi ydi'r
olaf i glywed y pethau pwysig yma ganddo chi, bob
tro. Lle mae'r Ysbïwyr? Chefais i ddim adroddiad
ganddyn nhw'r bore yma, ar gyfer y pwyllgor. A lle
mae Cim? Pam nad ydi o wedi fy rhybuddio? O!
Dyma fo, ar y gair.'

'Yr Eryr ddywedodd, Eich Mawrhydi,' atebodd
Cim a'i Filwyr wrth gyrraedd, a'u gwynt yn eu
dynau, 'efo'i hen grawcian diflas, dros y lle.'

'A! Roeddwn i'n meddwl mai fel hyn y byddai
pethau. Pryd?'

'Y funud 'ma, Eich Mawrhydi.'

'Ie wir, Madam. Clywch y corn hela â'r cŵn!'
rhybuddiodd Blew, o blith y Doethion.

Clustfeiniodd Sha wrth y drws unwaith eto. 'Hm.
Tua phum milltir i ffwrdd, fuaswn i'n ddweud.'

'Pedair milltir a hanner, erbyn hyn, Eich

Mawrhydi!' torrodd Gro ar ei thraws, o'r cefn, efo'i griw o Giaridyms.

'Taw! Fachgen digywilydd!' arthiodd Sha arno, wrth ddrws yr Ogof.

'Ond be 'dan ni'n mynd i 'NEUD?' mynnodd Gro, yn benderfynol o ddangos ei hun o flaen ei ffrindiau. 'Ar ôl Rina maen nhw'n siŵr i chi! Eisiau hi'n ôl maen nhw 'nte? Ac mae 'i mam arall hi . . .'

'TAW!' gwylltiodd ei dad, Blew, a thawodd y blaidd ifanc ar unwaith.

Tawodd pawb arall, ar y gair. Fflachiodd Sha ei llygaid fel tân ar y crwt o flaidd.

'Dewch i mewn, Gyfeillion. Gawn ni Bwyllgor Brys i drafod y mater,' dywedodd y Frenhines mewn llais pwysig. 'Ond yn sicr, wnawn ni ddim rhedeg i ffwrdd!'

Arweiniodd hi'r Bleiddiaid i mewn i'r Ogof yn urddasol.

'Nawr 'te, does 'na ddim amser i'w golli. Ond gwae chi, peidiwch â deffro'r babi!'

'Iac-iac,' cytunodd y Bleiddiaid.

Rhuthrodd y cnud i'r Pwyllgor yn ôl eu trefn, gyda Blew a'r Doethion yn gyntaf. Nhw oedd yn helpu Sha i reoli Teyrnas y Bleiddiaid. Nhw fyddai'n rhoi cyngor doeth i'r Frenhines, er doedd dim sicrwydd y byddai hi'n gwrando arnyn nhw bob amser.

Cim a'i Gomandos ddaeth wedyn, yna'r Ysbïwyr. Rhai slei iawn oedd y rhain, yn medru symud fel

fflach heb i chi eu gweld nhw bron, o goeden i goeden, o graig i graig, cyn ymosod yn sydyn.

Ac yn olaf, Gro a'r Ciaridyms. Y Criw Triw. Ffrindiau Rina. Cael hwyl a sbri oedd eu hoff bethau nhw, allan yn gwylltio'r Bobl. Dwyn eu bwyd. Curo ar ddrysau a rhedeg i ffwrdd. Dychryn y Brenin Drwg ac udo ac udo drwy'r nos yn y mynyddoedd.

Cerddodd y Frenhines Sha draw at y Fainc Frenhinol. Trodd i wynebu pawb.

'Croeso i'r Ogof, Gyfeillion!' cyhoeddodd yn awdurdodol. 'Eisteddwch. A chofiwch am y Brenin Ra gynt. Felly dim panig, dim cyñhyrfu, iawn? Ond does dim amser i'w golli.'

'Iac, iac,' cytunodd y Bleiddiaid.

'Tyrd dithau yma ataf i hefyd, y Dywysoges Rina,' gorchmynnodd y Frenhines. 'Ydi'r Tywysog Snwfflyn yn cysgu'n dawel?'

'Ydi, Eich Mawrhydi,' atebodd ei merch gan daflu cip sydyn ar y baban draw yn ei grud, wrthi'n canu grwndi trwy ei ddannedd bach perlog.

Dechreuodd y Pwyllgor ar unwaith. Siaradai'r cnud ar draws ei gilydd. Parablu, preblach, swnian, dadlau, bloeddio, chwifio'u pawennau a rholio'u llygaid.

Am dwrw! meddylodd Rina. Teimlai'n swil iawn o flaen pawb.

Neidiodd y Frenhines ar ei thraed. 'Dyna ddigon! Gadewch i ni fod yn drefnus, er cof am y Brenin Ra.'

'A-a-a-w,' atebodd y Bleiddiaid yn drist, wrth gofio am eu harwr mawr a laddwyd gan yr Helwyr a'u Brenin allan ar y mynyddoedd dro 'nôl.

'Nawr te . . .' Llyncodd Sha ei phoer yn bryderus. Yna, dechreuodd siarad yn gyflym: 'Gwaed am waed! Rydw i am waed y Brenin Brochwel o Fyd Dynion. Arno fo mae'r bai am hyn i gyd. Allan â ni i frwydro'n ddewr! Beth yw eich barn, mm? Rhyfel neu Heddwch?'

'Rhyfel! *Iac, iac,*' ategodd y Bleiddiaid, wrth iddynt sefyll yn gadarn o'i blaen, fel byddin gref.

'Ie, Eich Mawrhydi,' dywedodd Rina'n fwy hyderus. 'Ar y Brenin Drwg mae'r bai am y gaeaf a'r tloedi ac am lwgu pawb. Rhoi pobl dda yn y carchar efo heidiau o lygod mawr, a'u poenydio nhw, eu crogi nhw, llosgi eu llygaid nhw allan efo proceri poeth, a thorri'u dwylo nhw i ffwrdd am ddwyn torth o fara pan mae eu plant nhw'n llwgu!'


'A-a-aw! Ofnadwy! Erchyll!' mwmianodd y Bleiddiaid.

'Digon gwir, Dywysoges!' cytunodd Blew o blith y Doethion. 'Brenin creulon iawn ydi o. Rwyf ti'n gwybod hynny'n well na neb. Fo laddodd dy dad Ra, cofia!'

'O!' sgrechiodd Rina mewn braw a dianc i guddio y tu ôl i'w mam.

'A-a-aw,' atebodd y Bleiddiaid yn ddistaw, mewn cydymdeimlad.

'OND!' bloeddiodd y Frenhines yn bwysig. 'DAW DIAL! Rhaid i ni ymosod arno fo'n syth, CYN iddo fo gyrraedd i fyny yma.' A sylodd yn bryderus ar Rina, ac ar ei throed dde, yr un gloff. Druan o'i merch! 'DAW DIAL. *Grrrrrrrrr.* Er cof am y Brenin Ra. Cytuno, bawb?'



'Iac, iac,' cytunodd y Bleiddiaid. 'Lladdwn ein gelynion!'

'Rhaid i ni frysio,' gorchmynnodd y Frenhines. 'Rwy'n clywed eu drawdod a'u sŵn yn nesáu!'

'*Ci-ci nym-nym-niw?* Beth am ddwyn eu bwyd, bob sgrapyn?' awgrymodd Cim a'i Gomandos. '*Ai-w Ca Ma?* A gosod gwarchae o gwmpas Castell Mathrafal? Rhwystro pawb rhag dod mewn ac allan!'

'Ie! Eu smygu nhw allan, *Ig!* Gwych!' bloeddiodd Gro o'r cefn. 'Mae Rina'n medru gwneud tân andros o dda, efo coed –'

'*Gw-gw!* Cau dy geg!' gorchmynnodd Blew ei dad o'r ffrynt.

'A, *ci-ci-aio-ny?* A beth am ddwyn y ceffylau? Heno, yn y nos?' atebodd Gro, yn rêl boi, yng nghanol ei griw o Giaridymys wynebgaled.

'*Na-i-w!* Paid â bod mor wirion!' taranodd Blew, o blith y Doethion. '*Ci-ci-e-e. Siss.* Dal ati i ddwyn y defaid. Mae hynny'n gwneud mwy o synnwyr.'

'*Mw-mo.* A'r gwartheg hefyd,' dywedodd Cim. '*Chwa-si.* Comandos gyntaf, cofiwch.'

'Iac-iac,' cytunodd y Bleiddiaid.

'*A-a-i-i-w-w-ch-ch-ss!* Awn i hela'r funud yma, fel y gwynt!' gorchmynnodd Sha. '*G-G-R-R-A-A-W-W!* Brwydr go iawn amdani. Lladdwn ein gelynion. I'r gad!'

4 – Yr Helwyr

Gwylodd Rina ei mam yn arwain y cnud yn ddewr trwy borth y gaer, i lawr y mynydd ac i'r dyffryn. Stelciant yn slei dros y creigiau oedd yn arwain allan o Gastell y Blaidd. Sleifiant o lech i lwyn, o goeden i goeden, o foncyn i foncyn.

Clywodd y fleiddes-ferch yr Helwyr a'r Brenin yn agosáu. Gwelodd y Bleiddiaid yn llamu tuag atynt, dros yr eira diddiwedd.

'*Cor-w! Cor-w!*'

Canodd corn hela'r Brenin trwy'r dyffryn o gyfeiriad y pentref, a dyma'r cŵn yn cyfarth a'r ceffylau'n gweryru. Torrai eu carnau trwy'r eira, *swish-swash*, gan daro'r creigiau, *clinc-clonc*. Udai'r Bleiddiaid o'r goedwig. Cuddient yno'n gyfrwys, wrth aros eu cyfle i ymosod. A dyna lais Sha i'w glywed o bell, yn ffyrnicach na neb.

'Lladdwn ein Gelynion! *GRRAAWW!*'

Gwelodd Rina'r Eryr draw ar Graig yr Aderyn. Safai yno fel ysbïwr a'i lygaid creulon, oer, yn cadw golwg ar bawb a phopeth. Disgwyliai'n farus am ysglyfaeth i swper cyn diwedd y dydd.



Roedd y Frwydr ar fin cychwyn!

Yn sydyn, llanwyd y dyffryn â goleuni, a daeth yr awyr yn olau, braf. Disgleiriai'r rhaeadrau fel crisial dros Gastell y Blaidd. Sgleiniau'r haul trwy'r cymylau, a'r pelydrau'n disgyn ar wyneb Rina am y tro cyntaf ers tro byd.

Yna, ar lan yr afon, gwelodd hi'r Brenin a'r Helwyr yn agosáu. Marchogent ar eu ceffylau chwim, i ymladd â'r Bleiddiaid. Gwisgai pob un fwgwd fel anifail – arth, dyfrgi, llwynog, carw, broch neu flaid.

Hawdd gweld pwy oedd wedi lladd pwy, meddylodd y ferch. Druan o'r creaduriaid gwyllt!

Syllodd hi'n ofalus ar y mygydau rhyfeddol – llygaid, trwynau, dannedd, croen, blew a chyrn, dyna'r cwbl oedden nhw bellach. Teimlai i'r byw dros bob un o'r anifeiliaid hyn. Roedd hanner eu pennau'n cuddio pen rhywun arall!



Teimlai Rina'n ddig iawn wrth yr Helwyr. Y fath greulondeb! Yn 'i lordio hi o gwmpas y lle, mor bowld! Cyfrifodd Rina o leiaf ddeg o bennau ceirw. Doedd hi ddim yn medru cyfrif mwy na hynny. Tri llwynog, pum dyfrgi, ac ambell afr. Eryr, dau farcud, ceffyl, mochyn gwyllt a charlwm. Yna chwech o gathod gwylltion. Ond *mae'r* rheiny'n bla hyd y mynyddoedd, rhaid cyfaddef, meddyliond hithau.

Y sioc fwyaf oedd gweld mwgwd y blaid.

Nid . . . Ra? Y Brenin?

Na!

Wedi edrych yn ofalus, gwelodd Rina mai blaid dieithr oedd hwn. Ond roedd hi'n teimlo drosto o waelod ei chalon. Y fath greulondeb!

Yn sydyn, wrth ymyl y goedwig lle roedd y Bleiddiaid yn cuddio, dyma un o'r Helwyr yn carlamu 'mlaen at flaen y gad.

Y Brenin!

Rhyfeddodd Rina at ei wisg – ei helmed o aur ac arian a'i darian gron o efydd. Sbeciodd heibio'r graig i gael gweld y darian yn well.

Roedd llun gafr a cheffyl a cheiliog arno. Edmygodd ei wisg hela o ledr yr ychen. Y patrymau lliwgar ar ei grys o wlanen coch. Ei faelwisg o gadwyni arian. Gwelodd bob modrwy ar ei fysedd, a phob tlws a thrysor ar hafn ei gleddyf, yn goch, yn las ac yn aur. Disgleirient yn yr awyr oer, glir, yn y goleuni newydd a lenwai'r Cwm.

Yn sydyn, gwelodd hi fflach o fetel ar ei felt. Ei ddagr. Mwy nag un! Rhes ohonyn nhw, pob llafn yn finio ac yn greulon, a phob carn wedi ei gerfio mewn efydd neu ifori. Gallai weld pob pluen o'i saethau chwim – rhai coch, gwyrdd, melyn a gwyn.

Dychrynodd Rina. Lle'n union oedd hi wedi gweld y Brenin hwn o'r blaen, tybed? Yn y castell arall? . . . na, doedd hi ddim eisiau cofio'r fath le arswydus.


Yna gwelodd hi fod yna seirff a dreigiau ac eryrod wedi eu cerfio'n gywrain ac yn grefftus ar hyd arfau'r Brenin. Ymdroellent mewn patrymau aur ar fwcl ei felt, ar drwyn ei helmed, ar y broits a glymai ei fantell o ffwr. Croen ffwr rhyw flaid go anlwcus, mae'n debyg! meddyliond Rina mewn braw. Cot y Brenin Ra, dwi'n amau dim!

Chwarddai'r Brenin yn gas. Fflachiai ei gleddyf i gyfeiriad Sha a'r Bleiddiaid. Sbardunodd ei geffyl gwyn. Arweiniodd ei Helwyr i'r frwydr.

Am ddannedd hyll oedd ganddo! Dyna'r dannedd mwyaf cas a phigog a welodd Rina erioed. Dannedd hunllefus! Ai dyn ynte bwystfil oedd hwn?

Gyda'r Brenin roedd ei hebogwr, bachgen heini tua deuddeg oed. Marchogai ferlyn mynydd, un brith. Gwisgai fwgwd o blu ac arno big brawychus, pig hebog, un tebyg iawn i'w hebog ei hun! Ar ei law dde, gwisgai faneg ledr ac arni safai aderyn mawr ysglyfaethus gyda chrafangau cryfion.

Hwn oedd Hebog y Brenin.



Gig-gag, meddyliodd Rina. Perygl bywyd.

Gwisgai'r bachgen grys coch, 'run fath â'r Brenin, a siaced ledr, a maelwisg arian dros honno wedyn, ac esgidiau lledr wedi'u clymu'n gris-croes at ei benglin. Ni hidiai ddim am yr oerni, mae'n amlwg!

Yn awr, ofnai Rina hyd fêr ei hesgyrn dros ei mam a'i ffrindiau, Bleiddiaid y cnud. Rhedent yn ddewr o'r goedwig i gyfeiriad eu gelynyon. Rhedent i ymladd, i ladd.

'GRRAAWW!'

5 – Brwydr Erchyll

Arweiniodd Sha y cnud yn syth at y Brenin, i'r frwydr.

'Arnat ti mae'r bai, Brochwel o Fyd Dynion!' bloeddiodd hi i'w wyneb, yn eofn. 'Ti laddodd Ra 'nte? Ond chei di ddim brifo blewyn o mhen i! Na neb sy'n perthyn i mi chwaith. *Aa-i-w-w!* Awn i allan i hela. *GRRAAWW!* Ymladdwn!'

Yn ddirybudd, disgynnodd yr Eryr o'r awyr, i ganol y frwydr, i fusnesa ac i grafu am gig a gwaed. Cawciodd ar yr Hebog gan ddychryn y bachgen a'r aderyn fel ei gilydd. *CRAWC CRAWC!* Cawciodd mor ffyrnig nes i'r hebog lanio ar ben Gro. Bu bron iddo bigo'i lygaidd allan, a'i ddallu.

Llamodd Blew at ei fab, i'w amddiffyn. Brwydrai Gro yn ddewr yn erbyn ei elynion – yr Hebog, yr Eryr a'r bachgen ifanc.

Yna, dyma Brochwel ei hun yn carlamu i ganol y sgarmes.

'Hoi! Be sy'n mynd ymlaen yn fa'ma? Gadewch lonydd iddo fo!' bloeddiodd yn flin. Chwifiai ei gleddyf yn beryglus ar y cnud o fleiddiaid gwyllt. 'Fy mab i yw hwn. Aer y deyrnas. Cynan! Dos i'r cefn!

I'r rheng ôl. 'Sgen ti ddim syniad sut i ymladd. Yn well fyth, dos adref wir.'

Yna, er mwyn plesio Blew, ei dad, dyma Gro yn brathu coesau'r llanc a syrthiodd hwnnw oddi ar ei geffyl i'r llawr, i ganol yr eira a'r mwd.

"Nhad! Eich Mawrhydi!" sgrechiodd y Tywysog ifanc. 'Help!' Tynnodd ei fwgwd am eiliad. Gwallt brown cwta oedd ganddo ond wyneb hardd a dannedd da.

'Cwyd ar dy draed, y llwfrgi bach!' gorchmynnodd y Brenin yn ddiamynedd. 'Fydd 'na ddim tamaid o gig carw i swper i ti heno, na photes Ysgyfarnog chwaith. Dim asgwrn. Dos o 'ngolwg i! Ti'n codi cywilydd arna i.'

Prowlodd Sha yn slei o gwmpas Brochwel. Baglodd ei geffyl â'i phawennau nerthol. Llamodd i fyny at y Brenin a'i frathu yn ei fraich.

'Dos i ffwrdd, yr ast! Lladdwch hi,' bloeddiodd Brochwel ar yr Helwyr.

Doedd Rina'n deall dim o'u sgwrs, wrth gwrs. Ychydig iawn o iaith y Bobl roedd hi'n ei ddeall. Ond un dda oedd hi am sylwi ar eu hystumiau, ac ar dôn eu lleisiau – blin, ofnus, doniol, sinistr. Ra, ei thad, ddysgodd hynny iddi.

Cododd yr Hebogwr ar ei draed, a neidio i'r cyfrwy. Roedd arno ofn ei dad, y Brenin, mae'n amlwg ond roedd o eisiau profi ei fod yn medru ymladd yn ddewr. Yn sydyn, sbardunodd ei ferlyn

chwim, lansio'r Hebog i gyfeiriad yr Eryr, ac anelu ei gleddyf at y gelyn –

Gro. GRO!

Wrth weld fflach y metel yn dod tuag ato, dihangodd y blaidd ifanc yn ôl i'r goedwig. Gwibiodd ei ffrindiau i'w ganlyn, yn griw triw, y Ciaridymys wynebgaled. Gwyddai Rina'n iawn mai eu cynllun 'nawr fyddai ailymosod yn nes ymlaen, yn fwy slei. Roedd pob copa walltog, blewog yn awchu am ffeit, eu tafodau'n glafoerio a'u llygaid yn disgleirio.

Carlamodd y Brenin a'r Helwyr i mewn i'r goedwig hefyd, a'u dilyn.

6 – Hunllef Ofnadwy

Ceisiodd Rina weld beth oedd yn digwydd yn y goedwig, ond roedd y lle yn rhy dywyll o lawer.

Arswyd y byd!

Yna, clywodd sŵn ei brawd bach yn udo ac aeth yn ôl i mewn i'r Ogof. Swniai'n llwglyd iawn. Ac wrth iddi gysuro'r babi a cheisio tynnu ei sylw efo'r ddoli bren, dyma hi'n cofio rhywbeth pwysig iawn. Cofiodd iddi weld y dannedd mawr hyll yna – dannedd y Brenin – o'r blaen, yn rhywle arall . . . yng Nghastell y Bobl!

Am ryw reswm, gwyddai Rina hefyd ei fod yn aroglu o nionod drwg ond ni wyddai pam. Od. Od iawn. Dannedd nionod!

Gallai gofio hefyd am bob dant yn ei ben a rheiny'n ymwithio o'i geg fel ysgithrau mochyn gwyllt. Cofiai bod sawl un wedi pydru, ac yn gam, a bod darnau bach o gig ynddyn nhw ers y wledd y noson gynt, ar ôl yr holl sglaffio a'r llymeitian cwrw. A'i wallt! Cofiai'n iawn fod hwnnw'n saethu i fyny'n bigau, fel draenog, o dan ei goron aur!

Gwledd? Pa wledd? Rhywbeth i'w wneud efo nionod, efallai?

Dyna atgof annifyr! Atgof hunllefus! Sut ddaeth y fath beth i'w phen?

Y Brenin Brochwel Ysgithrog. Dyna pwy oedd o! Un creulon ar y naw. Ond beth oedd yr ots erbyn hyn? A hithau efo mam mor ddewr â Sha i'w hamddiffyn hi?

Ha ha ha. Daeth eco pell, pell o chwerthin cas y Brenin yn ôl ati a'i dychryn. Fflachiodd darlun ohono i'w meddwl, mewn clamp o ystafell enfawr . . . yn rhywle . . . Ond pryd oedd hynny, tybed? Cyn yr Eira Mawr? Ynte wedyn? Ni chofiai Rina'n iawn.

Af i byth yn ôl yna, BYTH! meddyliodd hi.

Am hunllef ofnadwy!

7 – Cymdoges yn galw heibio

‘Esgusodwch fi, oes ‘ma bobl?’ gofynnodd llais bach gwichlyd wrth ddrws yr Ogof y prynhawn hwnnw.

‘O, Ysgyfarnog! Tyrd i mewn,’ dywedodd Rina’n boenus. ‘Rwyt ti allan o wynt yn arw.’

‘Ydw braidd, Rina fach. Yr hen Helwyr ‘na eto. Maen nhw’n *bla*. Dyna fi’n dweud y gwir. Ga’ i fenthyg tipyn o ddail gen ti, ‘ngeneth i?’

‘Wel brysia. Wyt ti wedi clywed unrhyw newyddion o’r Frwydr? Mi fydd y Bleiddiaid yn ôl mewn chwinciad chwannen. Nhw sy’n ennill, ‘nte? Ti’n gwybod mor flasmus wyt ti i’r teulu!’

Wrthi’n bwydo ei brawd bach â thamaid o gig oen oedd Rina ar y pryd, ac yn trio anghofio’i hunllefau am y Brenin a’r Llys.

‘O, twt lol, mi fyddan nhw wrthi am oriau eto, yn brwydro,’ cwynodd yr Ysgyfarnog. ‘Fel yna mae dynion. A Bleiddiaid hefyd, sgiwsia fi’n dweud. Ble dwedaist ti dy fod ti’n cadw’r dail? Ti’n siŵr bod gen ti rai i’w sbario?’

‘Dim problem,’ atebodd Rina. ‘Gen i ddigon, wrth ochr fy ngwely, ‘di sychu’n grimp. Does ‘na neb yn y tŷ yma’n eu hoffi nhw, fel ti’n gwybod.’



'Wn i. Ew! Mae'r rhain yn flasus ar y naw. Hyfryd! *Crensh, crensh.*

'Pwy enillith y dydd, tybed? Lawr fana'n y Rhyfel?'

Busnesodd yr Ysgyfarnog o gwmpas y tŷ. Y storfa. Y Fainc Frenhinol. Bedd Ra, hyd yn oed. Y crud.

'O! Bydda'n ofalus!' rhybuddiodd Rina. 'Paid â mynd yn rhy agos at y babi, wir, neu fe gei di dy frathu!'

'O diar!' Llamodd y greadures yn ôl mewn braw. 'Ond Rina fach, be wnei di?'

'Be wyt ti'n feddwl?' Roedd y ferch yn rhy brysur yn siglo'r babi ac yn poeni am Sha i wrando llawer ar yr Ysgyfarnog a'i rwdlian.

'Wel, be os caiff HI 'i lladd?' gwichiodd yr Ysgyfarnog.

'Pwy?'

'Wel, Sha siŵr iawn. Dy fam.'

'O paid wir!' criodd Rina. 'Sha'n cael ei lladd? Paid â meddwl am y fath beth. Hei, well i ti fynd, 'sti. Fydd Mam yn siŵr o dy flingo di ryw ddydd!'

'Ond ei lladd gaiff hi, Rina. Lawr fa'na. Heddiw! Rŵan! Lawr ar lan yr afon oer, ar ganol y rhew.'

Oedai'r Ysgyfarnog wrth y drws, yn sbeitlyd braidd.

'Dos, plîs,' mynnodd Rina, bron â chrio. 'Fiw i mi ddweud wrth Mam am hyn. Mi fydd hi am dy waed

'Hy! Ti fydd y Frenhines wedyn,' dywedodd y llall yn bwysig.

'Fi?' gofynnodd Rina.

'Wel ie, siŵr,' atebodd yr anifail yn holl-wybodus. 'Ti yw aeres y deyrnas. Teyrnas y Bleiddiaid! Mae pawb yn gwybod hynny!'

'Fi?'

'Ti yw'r Dywysoges Rina, 'nte? Merch i'r Brenin Ra, gynt?'

'Ie. Ond beth am Snwfflyn? O'n i'n meddwl mai fo oedd yr aer. Bachgen ydi o, Tywysog,' atebodd y ferch.

'Twt lol! Mae o'n rhy fach o lawer. Yn meddwl am ei fol a dim byd arall. Na, ti fydd y frenhines nesaf, Rina, os caiff Sha ei lladd. Dyna'r drefn, ymysg Bleiddiaid y cnud.'

'Ond – ond, fedra i ddim!' protestiodd y Dywysoges. 'Dwi'n cael hunllefau! Dwi'n gloff! Dwi'n . . . od.'

'Od? Mae pawb yn od weithiau –'

'Na, na, na!' wylodd Rina. 'Fi? Yn arwain y pac? Yn hela? Yn lladd? Byth.'

'Ta ta, Eich Mawrhydi! Ha ha! Hwyl! Mae gen i daith hir o 'mlaen,' gwawdiodd yr Ysgyfarnog.

'I ble, felly?' gofynnodd y ferch, wrth iddi osod Snwfflyn yn ôl yn ei grud yn ofalus.

'Wyt ti ddim yn disgwyl i mi ddweud wrthyt ti, nag wyt? Tywysoges y Bleiddiaid? Ha ha!'

'O, gei di ddweud wrtha i fel ffrind, siawns?' meddai Rina'n ddigalon. Teimlai mor unig. Mor ofnus.

'Wel . . . dwi am fynd i rywle mwy diogel. A distaw. Fedra i ddweud gymaint â hynny,' atebodd yr Ysgyfarnog o'r drws, yn fwy caredig. 'Lle braf. Cwm arall, efo pobl glên iawn, yn ôl y sôn. Braidd yn bell. Ond, dyna fo.'

Ac i ffwrdd â hi.

8 – Peryg Bywyd

Rhuthrodd y Fleiddes Fawr i'r Ogof, at ei phlant, a'u hanwesu. O, mor falch oedd y ferch a Snwfflyn bach o weld Sha yn dod adref y diwrnod hwnnw. Ond brawychwyd Rina wrth weld clwyfau ei mam. Craith ar ei thrwyn. Toriad yn ei chlust. Ei phawennau blaen yn waed i gyd. Mwd ar hyd ei blew.

Sha a'r Criw enillodd y frwydr, siŵr iawn! Y Bleiddiaid enillodd y dydd.

'O Mami! Ddôn nhw yma i Gastell y Blaidd, 'dych chi'n meddwl? A'n lladd ni i gyd?'



'Beth? O na, paid â phoeni, Rina fach. Am fynd i hela'r Ysgyfarnog yfory nesaf maen nhw, Brochwel a'i Baganiaid,' atebodd Sha yn flinedig, 'a gwersylla ymhell o'n teyrnas ni, mewn cwm arall i ddathlu'r gwanwyn ym Myd Dynion. Os daw'r gwanwyn! Hen arferiad twp. Ymlaen i Ddyffryn Efyrrwy wedyn, meddai'r Ysbiwyr, sy'n deall rhywfaint ar iaith y Bobl, i chwilio am foch gwyllt, a cheirw ac anifeiliaid gwirion felly . . . O, Rina fach, does 'na ddim siâp arna i heno.'

Taflodd yr arwres ei hun yn flinedig ar ei gwely o fwsogl sych.

'Dwi'n synnu dim, Mami, ar ôl y fath frwydr erchyll,' atebodd Rina, gan fwrw golwg sydyn allan o'r Ogof. Doedd dim siw na miw o Brochwel na'r Helwyr, am y tro. Ei mam oedd yn iawn, fel arfer!

'Cor-w! Cor-w!'

Canodd corn yr Helwyr, yn agos iawn at Gastell y Bleiddiaid . . . yn beryglus o agos.

Cafodd Rina fraw a rhedeg i gôl ei mam. Yn sydyn clywodd y ddwy sŵn aflafar y cŵn, a'r ceffylau'n dod yn nes ac yn nes. Sŵn fel taran. Lleisiau dynion, yn griddfan mewn poen ac yn mynnu dial ar y Bleiddiaid am eu clwyfau gwaedlyd. Chwerthin cas. Cleddyf yn taro yn erbyn y graig. Saeth yn gwibio trwy'r awyr. Maelwisg yn clincian. Clogyn yn siffrwd. Traed mawr yn agosáu.

'Ych a fi! Drewdod dynion! A Brochwel yn fwy na neb!' gwaeddodd Sha. 'Gard! Ble maen nhw? Cim?'

Llamodd y Frenhines yn syth at ddrws yr Ogof. Galwodd ar y cnud am gymorth, ond roedden nhw i gyd wedi mynd i orffwys yn ei ffeuwau, wedi blino'n lân ar ôl y Frwydr Fawr.

'Deffrwch! *A-a-i-i-w-w!* Lladdwn ein gelynion! *Br-ch!* Brad!'

Ond roedd hi'n rhy hwyr. Dyna lle'r oedd y Brenin Drwg yn chwifio'i gleddyf wrth geg yr Ogof. Yn troedio trwy'r mwd, a'i goesau'n waed ac yn gleisiau i gyd ar ôl y Frwydr. Yn gwthio heibio'r Frenhines at y Fainc Frenhinol. Yn rhuo'n ffyrnig ac yn chwifio'i gleddyf tuag at y teulu bach.

Ymosododd Brochwel ar Sha a'i phlant, yn ddidrugaredd.

Snwfflyn a Rina.

Aer ac aeres y Deyrnas.

Teyrnas y Bleiddiaid.

9 – Herwgipto'r Trysor

Bachodd y Brenin yn y ddau, un ymhob llaw. Bu bron i'r babi gael ei dorri'n rubanau ar ei gleddyf, yn y fan a'r lle. Bu bron i Rina fygu o dan ei fraich gyhyrog. Taflodd Sha ei hun at goesau Brochwel a'u brathu'n ffyrnig.

'Blew!' bloeddiodd hi am help. 'Cim!'

Trawodd y Brenin Drwg hi yn ei chefn â'i gleddyf. Yna, rhedodd heibio iddi i'r cwrt. Sgrechiodd Rina o dan ei fraich.

Allan â'r Fam Fleiddes fel mellten. Neidiodd yn syth am wddw'r Brenin. Roedd hi'n benderfynol o amddiffyn ei phlant.

'GGRRAAWW! U-u. T-t! Lladdwn ein gelynion! Llygad am lygad. Dant am ddant!'

Trawodd Brochwel hi eto, yn ddwfn yn ei hochr. Ond wrth iddo dynnu'i gleddyf allan o'i chnawd, gollyngodd Snwfflyn ar lawr.

Rhuthrodd Gro a Blew i'w achub. Bachodd Gro yn y babi. Cuddiodd o'n sydyn y tu ôl iddo, mewn hollt yn y graig.

Ymosododd Cim a'r Comandos ar y cŵn. Anelodd

y Ciaridymys am y ceffylau. Ond ble'r oedd yr Hebogwr a'i aderyn ysglyfaethus?

Plygodd Blew dros y Fleiddes Fawr, yn bryderus. Gorweddaï hithau ar lawr yn boenus iawn. Roedd hi'n gwanhau.

'Mam, mam!' sgrechiodd y ferch.

'R-r-i-n-a,' sibrydaï ei mam, rhwng ei dagrau. 'Ss-ââ-ââ-ss. Sori, pwt.'

Llusgodd Brochwel y plentyn druan allan o Gastell y Blaidd, i gyfeiriad yr Helwyr. 'RHIAN ydi hon, i chi gael gwybod! Plentyn aeth ar goll o'r Llys, dair blynedd yn ôl. Cyn yr Eira Mawr. RHIAN! Am olwg sydd arna ti! Beth ddywedith dy rieni, y?'

'Rh-Rh-i-ann?' Ceisiodd Rina ddweud y gair, yn ofnus. Doedd hi'n deall dim o'r preblach hwn.

'MERCH! Dyna ystyr dy enw di, y dwpsan dwp. Pa gastiau drwg mae'r hen ast felltith 'ma wedi eu dysgu i ti, y?' bloeddiodd y Brenin yn fygythiol ar draws y cwrt. 'Merch o Fyd Dynion ydi'r bwndel o ffwr 'ma, reit? Nid anifail!' arthiodd i wyneb Sha. 'Dwi'n mynd â hi adref efo fi i'r Llys y funud 'ma, ti'n deall, ast? Ffi-i-i-w! Am ddrewdod! Am faw!'

Doedd geiriau'r Brenin yn gwneud dim synnwyr i neb. Ond deallent yr ystyr yn iawn. Roedd yn amlwg nad oedd ganddo unrhyw barch na chwarteisi at Sha, Brenhines y Bleiddiaid, nac at y Dywysoges chwaith.

Cydiodd Brochwel yn dynnach yn Rina. Neidiodd

ar y cyfrwy, a'i dal yno; sbardunodd ei geffyl a charlamu trwy'r porth i lawr y mynydd, i gyfeiriad Llys Mathrafal.

Dilynwyd ef gan yr Helwyr a'r cŵn. Ond fe gawson nhw dipyn o waith! Trio torri trwy'r Ciaridymys, a stryffaglio i dynnu dannedd y Bleiddiaid allan o'u coesau, heb sôn am gynffonau'r ceffylau.

'B-Brochwel, daw dial! G-Grrrrrrrr,' sibrydodd Sha ar ei ôl, â'i chalon yn torri.

Ar unwaith galwodd y Frenhines Bwyllgor Brys yn y cwrt. Aeth hi ar ei llw y byddai'n achub ei merch o Fyd Dynion.

'Pawb yn cytuno?'

'*Iac iac*, ie, cytuno,' atebodd y Bleiddiaid, yn ufudd.

Gwenodd Sha arnyn nhw'n wanllyd.

'O, beth wnawn ni hebddi? Yn helpu o gwmpas y tŷ? Yn gwarchod Snwfflyn? Yn adrodd ei barddoniaeth yn ddel? Ac yn poeni byth a hefyd am blant bach tlawd a phobl sy'n dioddef. O, mae hi'n werth y byd i mi. Ydi wir. Hi yw Trysor y Deyrnas, *La-Ri*.' Llusgodd Sha ei hun yn drist draw at ddrws yr Ogof.

'Grrrr. Digon gwir, Eich Mawrhydi.' Cododd Blew ar ei draed o blith y Doethion wrth gydymdeimlo â'r

Frenhines. 'Mae gennym i gyd feddwl mawr o Rina. A dwi'n siarad dros bawb, yn bendant iawn.'

'*Iac iac*,' cytunodd y Bleiddiaid, fel un llais.

'*Ci-ci* Rina. Dwyn Rina.' Rhedodd Snwfflyn i gôl ei fam, gan swatio'n glôs. Dechreuodd fewian yn ddagreuol.

Cysurodd Sha ef yn annwyl. 'Do, 'ngwas aur i, maen nhw wedi dwyn Rina. Rina ni. Ond . . . fe fydd yn rhaid i ninnau ei dwyn hi'n ôl, 'n bydd? Nos da, Gyfeillion.'

Fflamiaï ei llygaid fel tân. Stemiai ei ffroenau yn awyr oer y nos, fel mwg. Aeth i mewn i'r ffau, a'i babi wrth ei chwt, a dechreuodd stwna ymysg hen deganau ei merch.

'*Iac iac!*' cytunodd y Bleiddiaid yn benderfynol. Ond yn ddistaw bach, teimlai pob un yn gwbl ddi-obaith.

10 – Cig i Swper

Wrth i'r ceffylau garlamu ymhellach o Gastell y Blaidd, roedd Rina'n dal i strancio a gwingo wrth geisio dianc o afael Brochwel. Gwingai ar y cyfrwy fel bleiddes fach wyllt. A dyna'n *union* oedd hi, i bob golwg!

'Aros di'n llonydd!' bloeddiai'r Brenin arni bob hyn a hyn. 'Rwyd ti'n drysu Oswyn.' Clymodd Rina â'i felt i'w gyfrwy. 'Hoa, Oswyn 'ngwas i!' cysurai Brochwel y ceffyl gwyn.

Roedd hi'n nosi. Chwythai oerwynt y gogledd dros y mynyddoedd a'r dyffryn. Daeth cysgod o'r lloer i'r nen, trwy'r cymylau. Crawciai'r Eryr ar ei graig. Sgrechiai'r Dylluan yn y goedwig a'r Frân ar Faes y Frwydr. Hongiai rhes o sgerbydau o'r crocbren gerllaw, chwech ohonyn nhw i gyd. Gwelodd Rina bod pob un yn crechwenu arni'n sinistr. Chwifient a chlecient yn y gwynt a chwipiai dros y tir.

Arswyd y byd! meddylodd y ferch druan.

Marchogai Brochwel a'i Helwyr heibio pentrefi o fythynnod tlawd. Mentrodd y Bobl a'u plant allan yn ofnus i'w cyfarch. Roedd yna olwg llwglyd, esgrynog a blinedig ar bawb, ond rhaid oedd ufuddhau i orchmynion y Brenin a'i osgordd o wŷr arfog. Cafodd un teulu eu hel allan o'u cartref

gyda'u hanifeiliaid, am beidio â chodi llaw ar y Brenin, heb sôn am wrthod moesymgrymu o'i flaen yn ufudd! Llosgwyd eu tyddyn i'r llawr.

Roedd Sha yn iawn. Drewai'r Brenin Brochwel yn waeth na neb. Drewai o nionod, yn fwy na dim, trwy ei ddannedd ysgithrog. Dangosent yn hyll ar waelod ei helmed, ac roedd ei gorn hela yn ogleuo o groen a gwynt-gafr.

'*Hi pw-bi, hi pw-bi!* Helmed bwgan, helmed bwgan!' criodd hi i'w wyneb, yn iaith y Bleiddiaid.

Wrth lwc, doedd y Brenin yn deall dim.

'Cau dy geg, y wrach fach,' atebodd Brochwel. 'A-a. Dyma ni! Dy gartref newydd di. Llys Mathrafal.'

Marchogodd y ddau ar gefn Oswyn, y ceffyl gwyn, trwy borth y castell. Cododd y gwylwyr eu gwaywffyn-pen-sarff ar y Brenin, yn ufudd.

'*Oi-oi, help!*' sgrechiodd Rina. 'HELP!' Ond ni chymerodd neb unrhyw sylw ohoni.

Safai'r gaer ysblennydd ar fryn creigiog uwchben yr afon. Ar ben y muriau roedd yna ffens enfawr o brennau pigog.

O'i blaen gwelodd Rina adeilad mawr tywysogaidd, wedi ei wneud o goed a phridd a phlastar, gyda sylfaen cadarn o gerrig mawr. Chwythai mwg o'r simdde, ar ganol y to gwellt.

Yn y cwrt, neidiodd Brochwel oddi ar ei geffyl. Tynnodd Rina'n syth allan o'r cyfrwy a'i gollwng fel bwndel o danwydd i'r llawr.

Roedd pawb yn y Llys wedi dychryn wrth weld holl glwyfau gwaedlyd y Brenin. A phwy oedd yr anifail rhyfedd oedd gydag ef?

'Saf yn syth, y sopan wirion! Ar dy draed!' gorchmynnodd y Brenin.

Cropiodd hi ar ei phedwar trwy'r mwd a'r gwellt. Ni allai sythu ei chefn.

Ble'r oedd hi? Yn Llys y Brenin? O NA! Ceisiodd ddianc am ei bywyd. Brifai ei choes yn waeth nag erioed. Rhedodd yn syth i mewn i draed drewllyd y Cogydd.

'Wel, wir, Eich Mawrhydi, beth ydi hwn/hon?'



gofynnodd yntau mewn llais dwfn, fel eco mewn ogof. 'Swper?'

Roedd yna oglau saim a sbeis ar ei ddillad.

Tyrrodd y gweision allan o'r gegin i weld yr anifail newydd, a mentrodd heidiau o lygod mawr allan o'u tyllau ac o'r buarth. Crafent ar ganol y mwd a'r domen sbwriel lle gorweddai hen esgyrn ceirw a defaid a gwartheg ar bennau'i gilydd. Arthiodd y cŵn ar Rina o bob cyfeiriad.

Roedd yna bob math o aroglau o gwmpas y Llys. Tân coed. Chwys. Hen wyau. Ffwng. Lafant. Cŵyr mêl. Llefrith wedi suro. Blawd' a bara ffres. Drewdod ych a fi y Bobl! Dyna a ddysgodd Sha iddi. Ond yn awr, doedd Rina ddim mor siŵr. Roedd y bara ffres yn arogleuo'n dda! A doedd y cŵyr mêl ddim mor ddrwg â hynny. Ble clywodd hi'r oglau yna o'r blaen, tybed? A'r lafant?

'O, bechod! Cwtsi cwts, bach, bach,' dywedodd un o'r morynion wrthi. 'Aaw. O, dwi'n cydymdeimlo efo ti, y peth bach.'

Ceisiodd y forwyn anwesu'r got-ffwr a wisgai Rina dros ei chroen naturiol. 'Ow! O! Mae hi'n crafu hefyd! Sbiwch ar ei hewinedd hir! Yn ddu bits dan faw. A'i bysedd, a'i thraed! Mae'r croen wedi caledu i gyd!'

'Hy, sut fedra i rostio'r fath sgrapyn o gig, Eich Mawrhydi?' cwynodd y Cogydd, gan edrych yn gas ar Rina. 'Sbiwch, bawb, mewn difri calon!'

Daliai gannwyll mewn un llaw a chyllell fawr finiog yn y llall, reit o dan ei thrwyn. Pesychodd yn ofnus o flaen y Brenin. 'Carw mawr oeddwn i'n ei ddisgwyl heno ar gyfer y wledd, Eich Mawrhydi. Neu haid o ysgyfarnogod, o leiaf. I'r crochan â nhw!'

'Allan o'r ffordd, y twpsyn twp!' gorchmynnodd y Brenin. 'Helwyr! Dewch â'r carw mawr i mewn!'

Draw yn y pellter, roedd yr Helwyr wrthi'n tynnu eu swper ar gefn sled, yr holl ffordd i fyny'r bryn at y Llys. Ac yn eu dilyn, roedd y Tywysog Cynan ar gefn ei ferlyn. Cerddai'n ara deg. Roedd y carw wedi ei ladd, wedi'i glwyfo'n greulon sawl tro, ac yn waed i gyd. Cariai'r bachgen yr hebog ar ei faneg, a honno'n rhacs jibidêrs.

Gro a'i griw sy'n gyfrifol am gyflwr y faneg 'na, debyg, meddylodd Rina, wrth gofio'r Frwydr Erchyll, neu Cim a'i Gomandos o bosib, neu hyd yn oed Sha ei hun!

Yna trodd ei sylw at y carw ar y sled. Y creadur! Ei lygaid fel tlysau oer, yn gweld dim, ei gyrn mawr yn sgubo'r llawr, ei got o flew llyfn, a'i gynffon smala.

Llusgwyd yr helfa i'r gegin, dan lygaid barcud y Cogydd. Ymhen dim byddai'r anifail druan yn gig rhôst i swper ar blât y Brenin.

11 – Llanastr yn y Llys

'Rhian? Ti sy 'na?'

Plygai hen wreigan drosti, yn ei dagrau, a'i phrocio efo'i bys. 'Rhian fach? Ti'n 'y nghofio i? Na? A finnau'n nyrs annwyl i ti, erstmalwm! Yn siglo dy grud . . . O! dy fam druan, mor bell i ffwrdd . . . Mi redodd hi ar dy ôl di, pwrtan, i'r Eira Mawr. Ti'n cofio, mm? Ond diflannu wnest ti, 'nte? I'r goedwig, fel y tylwyth teg. O diar, mae dy fam . . .'

Yng nghwrt y Castell o Fyd Dynion, ni ddeallai Rina 'run gair a ddywedai. Pwy oedd hon, tybed, yn ei phrocio mor ddigywilydd? Yn snwffian ac yn crio dagrau fel cawod o law i mewn i'w llawes, ac yn ogleuo o lefrith sur?

Gwrach?

Tynnodd ei thafor allan ar yr hen wreigan druan. Dyna sioc gafodd y ddynes!

Rhyfeddai pawb at y fleiddes-ferch.

Sibrydent a murmurent ymysg ei gilydd. Wylai rhai. Chwarddai eraill.

'Llinos, a'r hen Alys!' gorchmynnodd y Brenin y forwyn a'r nyrs. 'I'r twba â hi'n syth! A da chi, triwch gribo'r gwallt blêr 'na. Dysgwch iddi sut i

fihafio. A rhowch rywbeth gweddus amdani cyn y wledd. Taflwch yr hen ffwr coslyd 'na i'r tân. Mae'n llawn chvain.'

Doedd Rina ddim wedi arfer â chael ei thrin mewn ffordd mor ddigywilydd. Doedd dim arwydd o gwrteisi'r Bleiddiaid gan y bobl hyn!

Ceisiodd ddianc. Gwelodd ddrws oedd yn arwain i'r stabl, un arall i'r beudy ac un arall i'r cwt-mochyn. Sbeciai llygoden fawr allan o un o'r drysau hyn, a golwg casach na chas arni. Tybed i ble roedd y drws mawr pren efo hoelion haearn arno yn arwain...?

Yn sicr ddigon, clywai sŵn rhywun yn griddfan ac yn gweiddi, mwy nag un person, o ddyfnderoedd tywyll y Castell. Cadwynau'n clincian. Tân yn clecian. Sŵn metel yn taro yn erbyn carreg. Cleddyf? Metel yn erbyn metel, yn gwichian yn gras. Magl? Rhywun yn gweiddi mewn poen! A-A-A-A! Un arall yn sgrechian, N-A-A!

Ni wyddai Rina lle i guddio na lle i droi. 'GR-A-A-W-W!' arthiodd ar bawb o'i chwmpas, i'w dychryn i ffwrdd. 'Lladdwn ein gelynion!' Ceisiodd eu crafu, a'u brathu, a'u cicio nhw. Dechreuodd sgrechian a strancio. Doedd dim diwedd ar ei chastiau. Yn wir, ni feiddiai neb ddod yn agos ati.

'A-a-i-i-w-w! Allan i hela!'

Sgrialodd Rina ar draws y cwrt. Carlamodd ar ei phedwar at y porth, ond roedd y giatiau mawr pren

wedi eu cau. Sbiodd y gwylywyr i lawr arni'n fygythiol. Anelodd y ddau eu gwaywffyn-pen-sarff ati, un at ei thrwyn a'r llall at ei gwddw.

Ni wyddai beth i'w wneud na sut i ddianc. Roedd hi'n garcharor yng Nghastell y Brenin Drwg. Y lle gwaethaf ar wyneb y ddaear!

Yna, clywodd fiwsig swynol o rywle gerllaw a throdd i'w gyfeiriad. Rhuthrodd trwy ddrws agored - a'r peth nesaf, dyma hi'n glanio yn y Neuadd Frenhinol.

Llys Mathrafal.

Llosgai tanllwyth o dân coed ar ganol y llawr. Dihangai'r mwg i fyny trwy dwll yn y to, ond chwyrliai ambell bwff o gwmpas yr ystafell fel niwl, gan wneud i'w llygaid ddyfrio'n boenus. Gwelai ffurfiau hudolus yn ymddangos o'i blaen trwy'r gwyll.

Taflai'r canwyllbrennau mawr haearn gysgodion rhyfeddol ar y pared. Roedd y waliau wedi'u gwneud o bren a phlastar a baw-gwartheg-wedi-sychu. Hongiai tapestriaau o wllân lliwgar o gwmpas yr ystafell, yn dangos lluniau o bobl a cheffylau a chŵn yn hela ac yn gloddesta ar ddiwrnod braf o haf yn y goedwig, ymysg y blodau a'r adar.

Ar lawr roedd yna groen anifeiliaid ar ben y llechi oer, a gwellt o gwmpas ochrau'r ystafell.

Chwaraeai dyn ifanc efo gwallt tywyll ar y delyn draw yn y gornel. Eisteddai ar fainc wedi'i cherfio â lluniau o ddreigiau a seirff. Wrth law, ar fwrdd derw

cerfiedig, roedd yna bentwr o bapurau, â phatrymau lliwgar drostyn nhw i gyd, mewn aur, coch, glas a du. Am sgwigs rhyfedd! meddyliodd Rina. 'Sgwn i sut mae gwneud pethau felly? Yna, gwelodd beth wmbreth o boteli o bob lliw a llun, a phluen neu ddwy.

Roedd cân y Telynor yn swnio'n drist. Roedd ei wyneb yn drist hefyd. Hoffai Rina ei wyneb, ei ddwylo medrus, a'i eiriau swynol. Gwenodd hi arno'n obeithiol. Efallai y byddai hwn yn ei helpu i ddianc?

'*Oi-o-oi. Help!*' udodd hi, dan ganu, mor agos i'r dôn â phosib.

Dychrynodd y dyn.

Stopiodd chwarae. Stopiodd ganu. Syllodd arni mewn braw.


Ar yr un pryd, gwelodd Rina weision a morynion wrthi'n gosod platiau o fwyd ar fwrdd anferthol ym mhen pellaf yr ystafell – caws, bara, nionod, cig rhôst, afalau a chawl – ac yn tywallt gwin o gostreli pridd i gwpanau aur ac efydd.

Dychrynwyd y cwmni wrth weld Rina. Arhosodd pawb yn eu hunfan.

Mmm. Am oglau da! Roedd y fleiddes-ferch ar ben ei digon a hithau ar lwgu ers oriau! Rhedodd ar ei phedwar draw at y bwrdd a neidio i fyny arno. Dechreuodd hi fusnesu o gwmpas y wledd. Aroglï'r bwyd. Llyfu'r caws. Brathu ar y bara a'i ogleuo, fel anifail. Yfed y gwin allan o gwpan aur y Brenin.

Gwasgu ei thraed budr i mewn i'r menyn. Crensiar yr afalau a thaflu'r gweddillion ar y llawr. Tagu. Llowcio. Pesychu.

Synnai pawb at y fath greadur gwyllt. Doedd ganddyn nhw ddim syniad sut i'w rhwystro. A dweud y gwir, roeddyn nhw'n eitha mwynhau gweld yr anifail newydd yn sboncio ar hyd y lle – roedd yn



llawer gwell nag unrhyw sioe arth neu fwnci ar ddiwrnod ffair cyn yr Eira Mawr! Chwarddai pawb ar ei phen nes bod eu boliau a'u cegau nhw'n brifo.

Beth ddywedai'r Brenin?

Yn sydyn, deffrodd y cŵn. Llamodd un ar ben y bwrdd â'i ddannedd yn fflachio. Achubwyd Rina mewn pryd gan y Telynor.

'Lawr, Gel, lawr! A tithe, Samson!' gwaeddodd ar y bwystfil arall a stelciai o dan y bwrdd.

Bownsiodd y corn hirlas i fyny ac i lawr ar ganol y bwrdd fel pêl. Roedd arno dlysau gwerthfawr, ac ifori wedi ei gerfio'n gywrain ac yn grefftus. Roedd yn llawn dop o fedd o liw aur. Tasgai hwnnw ar hyd y lle fel cawod Ebrill.

Yna, brasgamodd y Brenin a'i osgordd i mewn i'r neuadd, yn fawreddog i gyd. Gwisgai ei goron dros ei dalcen – edrychai'n hyllach na'r helmed hyd yn oed! Eisteddodd Brochwel ar ei orseddfainc. Arni roedd llun eryr anferthol wedi'i gerfio ar un pen, a draig ar y pen arall. Ofnai Rina y byddai'r Hebog yn dod o rywle ac yn ymosod arni'n sydyn.

Neidiodd hi'n wyllt ar ben un o ddistiau'r wal a dringo'n chwim i'r to. Gwrthodai'n bendant ddod i lawr. Syllai pawb i fyny ati. Synnai boneddigion crand y Llys ar y llanastr oedd ar fwrdd y wledd.

'Brensiach y byd!' bloeddiodd y Brenin dros yr ystafell. 'Beth ar y ddaear sy'n digwydd yma?'

Doedd neb am fentro dweud gair.

Roedd yna olwg boenus iawn ar y Telynor. Syllai'n ofnus ar y Brenin.

'Hafgan!' bloeddiodd Brochwel arno'n ffyrnig, 'Dwi eisiau GAIR efo ti! Ond cyn hynny, Foneddigion a Boneddigesau, beth am i ni i gyd fwynhau'r wledd? . . . Hafgan! Miwsig ar y delyn, os gweli di'n dda. Rhywbeth hwyliog y tro hwn!'

12 – Problem

‘Rwy’n cytuno, Hafgan,’ dywedodd y Brenin wrth y Telynor ar ôl y wledd enfawr. Pendwmpiai’r ddau o flaen y tân, wedi’r holl sglaffio bwyd a llymeitian cwrw, medd a gwin. ‘Mae hon yn broblem, dy Rhian di. Yn troedio dros y bwrdd ac yn difetha SBLOET Y GWANWYN! Sbiwch arni, mewn difri calon! Yn saith oed erbyn hyn, ie, bron yn wyth!’

Llechai Rina i fyn y to gwellt. Ceisiai swatio’n agos at nyth y wennol, er mwyn cael rhywfaint o gwmni.

Gwrandawai’r fleiddes-ferch yn astud ar y ddau ddyn yn siarad iaith y Bobl. Ceisiai wneud ei gorau i ddeall ambell air. Yfent y diferion olaf o’r gwin gorau, tan berfeddion nos. Pigai’r Brenin ddarnau o gig allan o’i ddannedd a’u taflu i’r tân, neu at y cŵn oedd yn hepian cysgu ar yr aelwyd.

Cysgai a chwynnai pawb arall ar lawr y Llys, yn ôl eu traddodiad. Ond ni wyddai Rina am yr arferiad, ar y pryd. Rhaid oedd amddiffyn y Brenin rhag ei elynion dros nos – y Bleiddiaid, Cynwlff y Sais, a Bleddyn ap Gwrgan o Ddyfed.

Synhwyrai Rina wynt y nos, yn lled obeithiol. Tybed a ddeuai Gro a’i griw i lawr i’r pentref heno i

geisio ei hachub hi? meddyliai. I godi twrw. Sbecian trwy’r ffenestri. Curo drysau. Fandaleiddio.

Yn sicr, roedd yna rywbeth yn y gwynt, rhywbeth braf a chynnes, yng ngolau’r lloer a’r sêr. Y Gwanwyn yn troedio’r tir, efallai? Yn deffro’r ddaear a’r coed, yn croesawu’r adar ’nôl o’r diwedd wedi’r hirlwm oer.

‘Yn hollol, Eich Mawrhydi,’ atebodd y Telynor. ‘Problem ofnadwy. Rhian, dwi’n feddwl. Fedra i wneud dim â hi. A finne’n DAD iddi!’

Dad? Lle clywodd Rina’r gair yna o’r blaen, tybed?

‘Wel, dwi wedi cael llond bol arni,’ cwynodd Brochwel. ‘A finne wedi gwneud fy ngorau drosti! Fi achubodd hi o’r Ogof ofnadwy yna, ’nte? Yma yn y Llys mae hi i *fod*! Ond rhyngddot ti a fi, Hafgan, does ganddi hi ddim syniad sut i ymddwyn. Tynnu’i thafod allan ar yr hen Alys! Meddylia am y peth! A honno wedi’i nyrsio hi’n annwyl ers iddi weld golau dydd am y tro cyntaf.’

Ni wyddai Hafgan beth i’w ddweud, dim ond ysgwyd ei ben yn ddiflas.

‘A meddylia mewn difri calon ei bod wedi crafu Llinos,’ cwynodd y Brenin, ‘ar draws ei hwyneb efo’r crafangau budr yna! Heb sôn am gicio’r Cogydd. Himm! Wir i ti, dyma’r broblem waethaf i mi orfod ei hwynebu erioed. Ac os nad wyt ti am ei chymryd hi . . .’

‘Y Fechan? Fedra i ddim, eich Mawrhydi,’ atebodd y Telynor. ‘Dwi’n ddyn prysur. Canu’r delyn ac adrodd a barddoni, i’ch plesio chi a diddanu’r Llys.

Disgrifio Natur a phethau tlws, a'ch canmol chi i'r cymylau am eich rhyfeloedd dewr a'ch anturiaethau. Na, wir, fedra i ddim.'

'Trueni.' Ystyriodd y Brenin y mater, gan gnoi cil ar damaid o gig. 'Faint oedd ei hoed hi'n mynd ar goll, ti'n dweud? Pedair?'

'Ie, Syr; ond o, mae hi'n codi cywilydd arna i'n ofnadwy,' dywedodd y Telynor yn ddagreul. 'O diar, trueni na fuasai Tara ei mam yn dod 'nôl yma, 'nte, Eich Mawrhydi?'

'O twt, ddyn, paid â dechrau crio eto. Efallai y gwnaiff hi wir, rhyw ddydd, a hithau'n ferch mor annwyl.'

'Dych chi'n meddwl, Syr? Gobeithio wir!'

'Mm, wel,' dywedodd y Brenin yn ddiamynedd. 'Rhaid i ti weddio ar y duwiau i ti gael gwybod hynny. Aberthu rhywbeth gwerthfawr sy gen ti. Dyna'r drefn gyda ni'r Paganïaid.'

'O? Beth ydych chi'n ei awgrymu felly, Eich Mawrhydi?' gofynnodd y Telynor yn bryderus. Syllodd i fyny at Rina yn y to.

'Brensiach y byd! Na, tydi'r bwndel acw o ffwr a chwain ddim hanner digon da i'n duwiau ni! Dim o gwbl,' atebodd y Brenin. 'Mynd â hi at ei mam sydd eisïau, yfory nesa. Bydd honno'n gwybod beth i'w wneud â hi.'

MAM! Sha oedd o'n feddwl? Crynai Rina ar ben y to, yn deall dim.

'Ei mam?' protestiodd Hafgan. 'Ond mae Cwm Pennant mor bell, Eich Mawrhydi! A Tara'n byw rŵan efo'r Dywysoges Melangell a'r Tad Cadog, ers cyn yr Eira Mawr.'

'Ie, os 'dyn ni am goelio Elfael y Pysgotwr a'i hanesion!' torrodd Brochwel ar ei draws. 'Neu Huwcyn y Certiwr – dyna i ti gymeriad arall sy'n teithio'r wlad 'ma, yn masnachu ac yn hel clecs, Eira Mawr neu beidio!'

'Na, ddaw Tara byth 'nôl i'r Llys, Syr. Ddim rŵan. Mae hi'n Gristion a finne'n Bagan, yn addoli'r hen dduwiau,' dywedodd y Telynor yn drist. 'Gwyddeles ydi hi, wedi dianc rhag ei gelynion efo criw o rai eraill i Gymru mewn llong dros y môr mawr. Daeth hi yma i'r Llys i gael gwaith, 'dych chi'n cofio? Syrthio mewn cariad . . . priodi . . . Ond ddaru ni gweryla, 'ndo, hi a fi, yn anffodus. A dweud y gwir, Syr, tydi hi ddim eisïau byw efo fi BYTH ETO ac mae hi'n fy meio i am adael i'r fechan redeg allan i'r eira a mynd ar goll. O diar . . .'

'A, dwi'n gweld,' dywedodd y Brenin wrth iddo gicio golosg y tân i gynhesu ei draed. 'Gwranda, Hafgan, rwyt ti'n driw iawn i mi bob amser. Ti a dy ganeuon i gyfeiliant y delyn, yn dweud stori Brân a Branwen a phethau felly. Ac mi gei di dy wobr, 'run fath â'r Helwyr. Beth am fwcwl aur? Neu fodrwy? Neu gleddyf newydd sbon o'r Trysordy? Mm?'

'Na, dim diolch, Eich Mawrhydi,' atebodd y Telynor yn ddigalon. 'Tara neu ddim. Mam hon.'

'Hy! Paid â bod mor anniolchgar,' bloeddiodd y Brenin. 'Awn i draw i chwilio amdani cyn belled â Chwm Pennant, a hela'r Ysgyfarnog 'run pryd. Ddoi di?'

'Dwn i ddim – gen i ofn –'

'Ond pam? Mae Bywyd yn fyr. Rhaid i ni i gyd wneud y gorau o bob cyfle. Ac mi fydd yn esgus i ni weld y Dywysoges Melangell hefyd, am dipyn o hwyll!' mynnodd y Brenin. 'Mae honno'n ferch bwysig, wyddost ti. Brenin Iwerddon ydi 'i thad hi! Mae'n ddyn pwerus iawn. Roedd o eisiau iddi briodi rhywun ond mi wrthododd hi, am nad oedd hi'n ei hoffi. Ti'n cofio'r hanes a'r clebran ymysg Cristnogion y pentref 'ma, siawns?'

'Dim syniad, Syr,' ysgydodd Hafgan ei ben.

'Mm, wel . . . rhedeg i ffwrdd wnaeth hi, dy Tara di, 'nte?' dywedodd y Brenin yn bwysig, 'wrth redeg i'r goedwig ar ôl Y BROBLEM, os dwi'n cofio'n iawn. Cyn yr Eira Mawr, dair blynedd yn ôl? Trueni,' mwmianodd i'w farf. 'Hoi! Tyrd i lawr, y niwsans!' gwaeddodd yn wawdlyd ar Rina. 'Tisio dy swper?'

Chwarddodd gymaint nes i'w goron aur syrthio oddi ar ei ben a rholio hyd y llawr.

'*Pw-bi!* Bwgan!' gwaeddodd Rina 'nôl arno.

'Ddaw hi ddim, Eich Mawrhydi. Na, mae'n rhy styfnig o lawer, 'run fath â'i mam,' eglurodd y Telynor.

'Na na na na!' ategodd Rina, yn bendant.
Cofiai'r gair NA yn iawn hefyd.

A dweud y gwir, wrth iddi swatio'n llwglyd am oriau yn ei ffau-nyth ar ben y to, dechreuodd Rina gofio pob math o bethau.

Pethau erstalwm.

Tara.

Beth neu pwy oedd Tara?

Doedd ganddi ddim syniad. Ond swniai'r gair yn ddiddorol.

A chofiai gael hunllefau dirifedi yn yr Ogof, yng Nghastell y Blaidd. Cofiai un hunllef yn well na'r lleill. Dynes dal, ifanc, hardd, mewn ffrog las, yn rhedeg ar ei hôl ar lan yr afon, adeg yr Eira Mawr.

Ri . . . rhywbeth oedd hi'n galw arni . . . na, nid Ri-na, chwaith, ond –

RHIAN!

Dyna'r gair oedd y ddynes yn ei weiddi ar ei hôl yn y freuddwyd, siŵr iawn. RHIAN. Dyna'i henuw hi fel plentyn ym myd Dynion amser maith yn ôl. Cofiai'r gair yn glir, yn ei phen, ac eto, methai'n lân â dweud y sŵn yn iawn. Dim ond y gair Ri-na ddaeth allan o'i cheg.

Pam?

Yna cofiai am y goedwig dywyll ac am Blant y Bleiddiaid – Gro a'i ffrindiau.

'Tisio chwarae?'

'Ti?'

'Be 'di dy enw di?'

'Ri-na. Tithau?'

'Gro. A dacw Cîm. Beth yw'r pethau rhyfedd 'na
'sgen ti yn dy bawen – hynny ydi, yn dy law?'

'O, dim ond doli – teganau – tisio chwarae?'

'Oes. Tyrd efo ni . . .'

Cofiodd hi'r Eira Mawr yn dechrau disgyn.

Llwggu. Rhynnu. Lapió'i ffrog fach las o'i chwmpas.
Gafael yn dynn yn ei doli. Dilyn y bleiddiaid. Colli
esgid. Brifo'i throed. Cofiai'r boen hwnnw fel procer
poeth yn llosgi ei chroen. Dyna pam roedd hi mor
gloff, siŵr iawn!

Cofiodd weld yr Ogof am y tro cyntaf. Cofiodd
faglu dros garreg ger y fynedfa. Syrthio. Sgrechian.

Sha a Ra.

Cael bwyd, digonedd o fwyd . . . Cig. Madarch.
Dail. Cnau. Wy, un melyn, heb ei goginio. Yd.
Grawn. Criafol. Aeron. Cofiodd pa mor falch oedd
hi o gael cysgodi allan o'r eira, a theimlo'n gynnes
braf, yn y ffau efo'i theganau, ar ganol y ffwr a'r plu
meddal . . . mmm . . .

Ymlaciodd Rina wrth gofio'r meddalwch esmwyth,
a suddodd i gysgu yn ymyl nyth y Wennol.

13 – Brecwast i'r Helwyr


Yn y bore bach, canodd ceiliog y Llys. Cysgai'r
Brenin a'r Telynor yn drwm. Roedd y tân wedi
diffodd ers tro.

Goleuwyd yr ystafell â phelydrau haul y bore.
Disgleiriai'n goch trwy'r ffenestri o wydr trwchus a
phlwm.

Clywodd Rina sŵn traed y tu allan yn y cwrt.
Dringodd i fyny'r distiau at dwll y mwg. Syllodd
yn sydyn trwy'r to, i weld beth oedd yn digwydd
y tu allan. Gwelodd ddyn yn taro cloch enfawr,
saith o weithiau. Bwwm, bwwm . . . Clywsai'r sŵn
o'r blaen, lawer tro, o'r Ogof. Canai'n gynnar
bob bore. Atseiniai hyd at Gastell y Blaidd. Dyna
pryd fyddai'r cnud yn mynd i gysgu, ar ôl noson o
hela.

Daeth hiraeth mawr arni i weld ei mam, a Gro, a
Snwfflyn. Pawb. Roedd hi bron â cholli gobaith.

Dringodd yn ddistaw bach i lawr i'r neuadd,
heibio i'r cŵn a'r Helwyr yn chwynu ar lawr ar ben
y gwair a'r ffwr.



Yn sydyn, dyma'r Brenin yn deffro, o ganol ei glustogau cyffyrddus. Rhwbiodd ei lygaid ac agorodd ei geg ysgithrog.

'A ble wyt ti'n mynd, tybed?'

Llamodd y cŵn at Rina a'i dychryn eto. Rhedodd hithau o dan y bwrdd.

'Gel! Samson! Lawr!' bloeddiodd y Telynor, wrth iddo ddeffro a chodi'n sydyn. Gafaelodd yn y ddau anifail. Clymodd eu coleri lledr wrth gadwyn haearn yn y wal. 'Rhian fach, rho hwn amdanat, cyn y daith,' dywedodd wrthi mewn llais caredig.

Taflodd ei glogyn melyn, cynnes ati.

'Mae hi'n erwin o oer y tu allan, wyddost ti, ond mae awelon y gwanwyn yn troedio'r tir. Daw yr haf cyn bo hir.'

'A-a-aw,' atebodd Rina mewn cydymdeimlad, yn iaith y Bleiddiaid. Roedd geiriau'r Telynor yn swnio mor farddonol. Ond beth oedd eu hystyr?

'O diar. Tyrd yma ar unwaith, pwtan. Mae'r Brenin am fynd â ti at dy fam heddiw. Faset ti'n licio hynny'n buaset ti?' gofynnodd Hafgan wrthi gan wenu arni'n siriol.

MAM. Dyna'r unig air a ddeallodd Rina. Ble oedd Sha, felly? Roedd hi'n amau'n fawr mai tric oedd hyn i gyd. Twyll. Brad. Rhywbeth i'w wneud efo'r Eryr, o bosib, neu'r Ysgyfarnog?

Synhwyrodd yr awyr. Clywodd synau byddarol yn dod o'r cwrt. Ceffylau. Cwyro lledr. Cwyro harneisi.

Sŵn rhywun yn brwsio'u cotiau'n llyfn, a'u mwng. Oglau ceirch. A gwair. Sŵn dannedd mawr yn crensian. Sŵn eu tafodau'n yfed dŵr. Llond y ffynnon. Llond afonydd!

Oglau tân. Sŵn tân yn llosgi. Gwreichion yn tasgu. O'r gegin? Neu o'r seler? O ble, tybed?

Crynai Rina wrth gofio am Mistar Bwgan y Cogydd, â'i gyllell fawr finiog, ac am y carcharorion druan yn cael eu poenydio a'u cam-drin mor greulon. Ond am y tro, doedd 'na ddim smic i'w glywed o ddyfnderoedd y castell. Dim sŵn arteithio na chlincian cadwynau, na neb yn sgrechian wrth gael torri'u dwylo i ffwrdd, na llosgi eu llygaid allan gyda phroceri poeth.

O! Am syniad erchyll! Sut daeth y fath ddarluniau ofnadwy i'w meddwl?

Yna, synhwyrai oglau bwyd blasus o gwmpas y lle – cig moch, wyau, bara ffres. Mm!

Deffrodd yr Helwyr ar unwaith. Aethant ati'n syth i finiogi'u harfau. Saethau. Cleddyfau. Gwaywffyn. Cyllyll.

Daeth gwas i mewn i gynnu'r tân. Cleciodd y gwreichion i fyny trwy dwll y mwng. Llyfodd y fflamau coch dros y coed fel tafodau dreigiau. Daeth criw o forynion y gegin â'r brecwast at y bwrdd.

Cododd Brochwel yn ddioglyd ac aeth i eistedd ar ei orseddfainc, yn bwysig. Eisteddodd pawb ar eu meinciau i fwyta a llowcio. Aeth Hafgan y Telynor

yn gwmni i'r Brenin, ar yr ochr dde iddo. Eisteddodd y Tywysog Cynan ar ei chwith. Syllodd yn bwdlyd ar ei dad. Stabiodd ei fwyd â'i ddagr. Tafloodd ei friwsion draw at y cŵn. Ciciodd goesau'r bobl nesaf ato o dan y bwrdd.

Gwingodd Rina allan o'u ffordd nhw. A beth pe bai'r Hebog yn dod yn ei ôl? Dechrau hedfan o gwmpas. Ymosod arni. Ei chrafu'n gas â'i grafangau a'i big.

Tafloodd rhai o'r Bobl ddarnau o gig a bara at y fleiddes-ferch o dan y bwrdd, wrth eu traed drewllyd. Sglaffiodd hi'r darnau'n ddiolchgar. Doedd dim gobaith iddi ddianc eto! Dim ond y Telynor a wenai'n garedig arni. Roedd pawb arall yn flin fel cacwn, yn torri gwynt ac yn cythru am y bwyd.

Bob hyn a hyn, estynnai Hafgan ddiod o ddŵr pur y ffynnon i lawr iddi, o'i gwpan ei hun. Cwrw yfai pawb arall, llond bwcedi ohono. Y funud hwnnw, cofiodd Rina rywbeth am y Telynor, ond doedd hi ddim yn rhy siŵr chwaith. Cofiai ei lais swynol. Cofiai ei wyneb, o rywle, rywbryd. Dim rhyfedd iddi hoffi'i fiwsig! Dyn caredig oedd o, ond roedd hi'n poeni'n fawr am yr olwg drist oedd arno.

'D-D-DAD!' bloeddiodd hi, yn iaith y Bobl, ond ni wyddai pam y dwedodd y gair. Pwy – beth – oedd 'DAD'? Enw rhyfedd. Rhyfedd iawn. Rhywbeth i'w wneud efo TAD, efallai? Ond Ra oedd hwnnw!

Yn sydyn, gwenodd y Telynor arni o glust i glust.
'Glywsoch chi, bawb? Mae hi'n fy nghofio i! Dad,
Dad! medde hi.'

Chwarddodd y cwmni, yn gas braidd. Chwarddodd
y Brenin yn uwch na neb.

'Brysiwch, Helwyr! Brysia, Cynan Garwyn! Mae'n
bryd i ni gychwyn ar ein taith i Gwm Pennant. Ac ar
y ffordd, fe gawn ni gyfle i hela'r Ysgyfarnog!' ychwanegodd, mewn llais a atseiniai fel taran mewn
ogof. 'Dim ond o ran hwyl.'

Yna, pwyntiodd yn syth i lawr at Rina. Dyna lle
roedd hi'n cuddio'n ofnus o dan y bwrdd ymysg yr
esgyrn a'r briwsion. 'Ac mi rwyd ti, Rina, yn cael
dod efo ni! I weld dy fam! Brysia!'

14 – Antur Ddewr

Y noson honno, gwersyllodd y Brenin a'r Helwyr
wrth droed y Berwyn, heb fod ymhell o Gwm
Pennant. Roedden nhw'n flinedig iawn a doedd
ganddyn nhw ddim amynedd efo'u carcharor bach
castiog.

Niwsans rhonc oedd hi!

Problem.

Dyna oedd barn y Brenin a'r Helwyr, mae'n amlwg.

Trwy'r dydd bu'n rhaid iddyn nhw farchogaeth
heibio'r llifogydd. Roedd yr afon Efyrynwy wedi
gorlifo'n beryglus dros ei glannau, gan fod yr Eira
Mawr yn dadmer.

Rhuthrai'r rhaeadrau i lawr y creigiau i'r nentydd
crisialog. Byrlymai'r nentydd i lawr llethrau
mynyddoedd y Berwyn i'r afon.

Roedd y porfeydd yn wlyb ac yn fwdlyd. Yn araf
deg, daeth y gwartheg a'r defaid allan o'u cytiau i
weld yr haul. Daeth yr ieir a'r gwyddau allan i
grawcian ac i grafu ar ambell fuarth fferm. Canai'r
adar yn y coed a sbonciai'r wiwerod coch ar hyd y
brigau a'r blagur.

Bu'r Brenin a'r Helwyr yn paratoi i fynd allan i

hela ers ben bore. Crynai Rina mewn braw. Yn ei llaw roedd ganddi frechdan ffres a gafodd gan y Cogydd, o bawb. O, beth oedd am ddigwydd iddi? Pam nad oedd y Bleiddiaid wedi dod i'w hachub? Sha, Snwfflyn a Gro? Ble ar y ddaear oedden nhw?

Bu'n rhaid iddi ffarwelio â Hafgan y Telynor wrth borth Castell Mathrafal. Gwrthododd yn lân â mynd gyda nhw. Roedd arno ofn tymer Tara, meddai!

Roedd o wedi dod â thair anrheg i'w ferch ar gyfer y daith – mantell, merlen a dagr efydd.



'I ti, a dy Fam. Gofala amdani,' dywedodd o'n annwyl, dan wenu, yn iaith y Bobl. Doedd o ddim am anwesu'r greadures wyllt yn rhy glòs.

'Rhag ofn iddi dy frathu!' rhybuddiodd yr hen Alys, y Nyrs.

'Ie wir,' ategodd Llinos y Forwyn.

'Cofia fi at dy fam,' dywedodd Alys wrth Rina.

'Finna hefyd, ei ffrind gorau!' sibrydodd Llinos yn bryderus.

Ar hyd y daith, cofiai Rina am Hafgan y dyn hael, wrth iddi swatio'n glyd ar gefn ei merlen, o dan y clogyn mawr a roddodd iddi. Merlen fach frown oedd hi, ac yn ddigon o ryfeddod, gyda smotyn gwyn fel seren ar ei thalcen. Roedd Rina mor falch. Daeth y ddwy yn ffrindiau mawr, o'r dechrau un. Roedd Seren wrth ei bodd efo'r ferch gloff. Dyna un od oedd hi, yn mynnu gorwedd ar ei chefn fel ast fach!

Aethant yr holl ffordd trwy gymoedd Powys, y Brenin a'r Helwyr a'u carcharor. Ond doedd dim golwg o'r Ysgyfarnog yn unman!

Drwy Ddyffryn Meifod, heibio Craig yr Aderyn a'r Eryr yn cyhwfan uwchben. Heibio Castell Tomen y Mur, a'r gwylwyr ar y tŵr, â'u gwaywffyn bygythiol, di-groeso. Ysgyfarnog? Dim un, peidiwch â sôn. Affliw o ddim sy'n werth ei hela'r dyddiau hyn, cwynai pawb.

I lawr i Ddyffryn Tanat â nhw, heibio Castell y

Moch, lle taerai'r bobl na welson nhw flewyn o'i chynffon.

'A dim un mochyn gwyllt yn y cyffiniau 'ma, chwaith. Na baedd, i chi gael deall. Mae pawb yn llwgu yn Nyffryn Tanat, ar ôl y gaeaf hir. A dw innau'n trio helpu pawb tra medra i, ond pob lwc i chi,' dywedodd hen arglwydd hoffus y llys bach hwnnw.

Ar hyd y daith, gafaelai Rina yn dynn yn y ddagr, rhag ofn. I ble ar y ddaear oedd y Brenin a'i griw am fynd â hi? Synhwyrarai rywbeth peryglus iawn yn y gwynt. A ble roedd Sha a'r Bleiddiaid? Doedden nhw heb anghofio amdani, siawns?

Swataiai'n ddyfnach dan ei chlogyn gwlân ar gefn Seren. Ceisiai guddio y tu mewn iddo. Ofnai'r ferch y byddai'r Brenin a'r Helwyr yn ei cham-drin, ei phoenyddio a'i lladd. Yn ei lladd! Dyna'r drefn ym Myd Dynion, meddai'r Bleiddiaid.

Arswyd y byd!

Roedd arni ofn yr Hebog, ac ofnai syrthio o'i chyfrwy a chael ei sathru dan draed y ceffylau mawr dieflig, ceffylau'r Helwyr â'u mygydau sinistr.

Ar hyd y ffordd gwelai'r bobl dlawd a'r plant yn syllu arni mewn syndod, ac yn gwneud hwyl am ei phen. Pwyntient eu bysedd ati dan chwerthin, gan ryfeddu at y crafangau miniog ar ei bysedd a'i thraed.

Druan o Rina!

Machludai'r haul dros fynyddoedd y Berwyn, tua'r gorllewin. Dechreuodd nosi. Dechreuodd oeri.

Yn y gwersyll eisteddai'r Brenin a'r Helwyr wrth y tân, yn sglaffio'u bwyd a'u diod, heb gynnig dim i Rina. Chymerodd neb sylw ohoni. Swataiai gyda Seren ar ymylon y cwmni. Am griw hyll a drewllyd a swnllyd oeddyn nhw! Yna, fesul un, syrthiodd pawb i gysgu.

Ond arhosodd eu carcharor mor effro â'r gog. Roedd hi ar bigau'r drain! Gwyntodd yr awyr fel bleiddes, fel dysgodd Sha a Ra iddi wneud. Yn sicr, roedd yna rywbeth mawr ar droed. Roedd hi'n benderfynol o wyllo ac o wrando drwy'r nos.

Cuddiai'n gynnes yn ei chlogyn yng nghysgod Seren, y ferlen fach, ei ffrind newydd. Diolch amdani!

Daeth y lloer a'r sêr allan. Sgrechiodd y dylluan draw yng Nghwm Pennant. Daeth ambell frithyll i fyny o ddyfnderoedd yr afon, i wyneb y dŵr, i chwilio am bryfed i swper.

Cripiarai cysgodion y nos ar draws y dyffryn hardd, heibio'r llwyni, a heibio'r gwersyll.

Yna, teimlodd rywun yn rhoi pwniad iddi yn ei chefn.

Gro!

'Sssh! A-a-i-i?' gofynnodd iddi'n ddireidus. 'Awn ni allan i chwarae?'

'Ssh,' sibrydodd Rina. 'Wyt ti ar dy ben dy hun?'

Gwnaeth Gro arwydd sydyn i gyfeiriad y mynydd, at y creigiau uchel. 'Gwersyll y Bleiddiaid,' sibrydodd. 'Mae'r cnud wedi bod yn dy ddilyn di'n slei bach,

ers oriau, o'r bryniau a'r coed. Do wir, yr holl ffordd. Tyrd, mae dy fam yn disgwyl amdanat ti. Brysia!'

Gollyngodd Rina'r clogyn a syrthiodd hwnnw'n swp wrth draed y ferlen. Ni fyddai hi ei angen eto, na'r dagr chwaith. Ond roedd yn chwith iawn ganddi adael Seren.

'Tyrd,' mynnodd Gro. 'Gwranda!'

'Aa-i -i-w-w!'

Sha! A Bleiddiaid y cnud, yn galw, galw o'r mynyddoedd a'r coed.

Stelciodd y ddau anifail ffwrllud ar eu pedwar allan o'r gwersyll, yn ddistaw bach.

Diflannodd y ffrindiau i gysgodion y nos.

Roedd Rina'n rhydd! Rhedodd ar ôl Gro i'r gwyllt.

15 – Y Bwthyn Clyd

Dilynodd Gro a Rina yr afon o Ddyffryn Tanat hyd at Gwm Pennant. Roedden nhw'n mwynhau anturio i'r wlad, wrth iddynt weld yr eira'n diflannu.

Roedd y ddau'n stelcio drwy'r coed pan glywsant smic fach. Tybed oedd yna siffrwd ymysg y blagur a'r dail newydd? Ymysg yr eirlysiau a'r cennin Pedr, oedd ar fin agor? Gwiwer yn brathu ar ei chnau, efallai, neu pry genwair yn troi yn y pridd. Drudwy a gwenol yn nythu, neu dylluan yn gwylio.

Oedd, roedd blas y Gwanwyn ar y gwynt, yn gynnes braf, hyd yn oed yn y nos fel hyn.

Ble'r oedd yr Ysgyfarnog, tybed? Gobeithiai Rina'n fawr ei bod wedi llwyddo i ddianc o afael y Brenin a'r Helwyr, i bellafoedd y byd, lle bynnag oedd hwnnw.

Wedi i'r ddau ffrind ddringo i fyny Moel Dimol – Gro yn arwain a Rina'n dilyn – pwyntiodd y blaidd ei bawen at waelod y cwm unig. 'Sbia.'

Edrychodd Rina i lawr a gwelodd olau bach yn y pellter – golau bwthyn. Dangosai trwy rimyn cul o ffenestr yn y wal. Chwyrllai'r mwg o'r simdde i'r awyr dywyll, at y lleuad wen a'r sêr.

'Ond pwy sy'n byw mewn lle mor unig?' gofynnodd Rina.



'Tywysoges o wlad bell,' atebodd Gro. 'Dyna ddywedodd Cim a'i ysbïwyr. Mela-rhywbeth. Dyna ydi'r enw mae'r bobl eraill sy'n byw yn y bwthyn gyda hi yn ei galw.'

'Pwy arall sy'n byw yno?' gofynnodd Rina.

'Tara, ei morwyn, a'r Tad Cadog. Dyn go nobl. Pen moel ganddo fo. Ond sut gall hwnnw fod yn dad iddyn nhw, y ddwy? Dyna dwi isio gwbod. Ac yntau mor ifanc? Sgen ti syniad?'

'Dim syniad o gwbl,' ochneidiodd hithau.

'A tydyn nhw ddim yn galw Eich Mawrhydi arno

fo chwaith! Rhyfedd iawn. Dim ond ar y wraig. Y Dywysoges.'

'Mm,' ystyriodd y ferch. 'A pham mae un yn Dywysoges a'r llall yn forwyn, sgwn i? A'r un tad gan y ddwy?'

'Yn hollol. Ond mae'r ddwy i weld yn gwneud yr un gwaith.'

'O? A pha waith ydi hynny?' gofynnodd Rina'n awchus, ond ni wyddai pam. 'Ydyn nhw'n medru ysgrifennu?'

'O, ydyn. Efo cwilsen a memrwn. 'Run fath â'r boi 'na lawr yn y Llys, ti'n gwbod. Yng ngolau cannyll. Hen gronclau a phethau felly. Ac yn darllen hefyd. Allan o lyfrau sy'n sgwigs coch a du ac aur i gyd. Welaist ti rioed y ffasiwn beth!'

'Ydyn nhw'n medru canu? A chreu miwsig?' gofynnodd Rina gyda diddordeb.

'Nac ydyn, cofia. Efallai y medri di eu dysgu nhw!' awgrymodd Gro, yn slei.

'Fi? *Na-i-w*. Paid â bod mor wirion. Beth arall maen nhw'n ei 'neud, felly? A sut wyt ti'n gwybod cymaint amdanyn nhw?'

'Yr Ysbïwyr ddwedodd. Bob dydd, mae'r ddwy yn brwsio'r tŷ yn lân ac yn cario bwcedi o ddŵr o'r ffynnon.'

'Swnio'n waith caled i fi,' dywedodd Rina'n flinedig.

'O na, maen nhw wrth eu boddau'n piltran a stwnan o gwmpas y lle. Bwydo'r ieir. Dal gwyddau.

Crawc! Hel wyau. A thyfu perlysiai mewn potiau, tu mewn, allan o'r eira, yna'n eu sychu nhw wrth y tân – lafant, rhosmari, mintys a theim. Fe fyddan nhw'n 'u malu nhw wedyn, gan greu rhyw eli meddal, ac yn ei rwbio fo ar y croen, os oes 'na un ohonyn nhw wedi brifo.'

'Wel wir! Ac ydi o'n 'u gwella nhw?' gofynnodd Rina, yn dra gobeithiol, wrth iddi deimlo'i throed dde – yr un boenus, gloff.

'Ydi wir, yn rhyfeddol!' atebodd Gro, yn falch tu hwnt o'i wybodaeth newydd. 'Mae 'na bobl yn teithio o bobman i gael eu gwella yma, yn ôl y sôn. Wir i ti! Cadw hen ddail rhosod mewn potyn o ddŵr – dyna i ti rywbeth arall maen nhw'n 'neud. Gwnïo dillad. Crasu bara.'

'Bara! Go iawn? Mm. Y stwff 'na efo oglau da arno fo?' mentrodd Rina. 'Dwi'n llwgu.'

'Finnau hefyd. Ta waeth, fo sy'n troi'r tir, y dyn. Clirio'r eira. Cario tail. Torri coed. Gofalu am y cwch gwenyn a gwneud mêl. Godro'r fuwch a'r geifr. Ond mae'r tri i weld yn trin eu ceffylau, yn dda hefyd. Ac yn anwesu'r ci.'

'Y CI! Cŵn! O diar, faint sy 'na? Beth os –'

'Taw, Rina. Dim ond un sy 'na. Setlwn ni'r ci, paid â phoeni. Brysia. Mae dy fam, y Frenhines, am alw pwyllgor.'

16 – Dewis Rina

Wrthi'n bwydo Snwfflyn roedd Sha pan gyrhaeddodd y ddau Wersyll y Bleiddiaid, yn y goedwig.

Carlamodd Rina ar ei phedwar yn syth at ei theulu. Cafodd goflaid ffwrlyd, glôs gan Sha, a llyfiad llaethog gan Snwfflyn. O, mor falch oedden nhw o weld ei gilydd eto!

Ac o, mor edmygus ohoni oedd y Criw Triw, ar ôl clywed am ei hantur yn y Llys! Cawsant bryd o fwyd blasus gyda'i gilydd, cig oen ac esgyrn, a digonedd o ddŵr y nant.

Yna, dechreuodd y Pwyllgor.

Cafodd Rina groeso anrhydeddus gan bawb. Blew a'r Blaenoriaid. Y Doethion. Cim a'i Gomandos. Yr Ysbïwyr. Y Ciaridymys wynebgaled.

Eisteddodd Sha ar garreg uchel, ei mainc frenhinol am y tro, er cof am Ra.

'Annwyl Gyfeillion, annwyl Ferch, croeso i ti, y Dywysoges Rina o blith y Bleiddiaid. Ie, dyna wyt ti. Aeres y Deyrnas.'

'Iac iac,' cytunodd pawb.

'Mae'n amser i ti gael gwybod peth o dy hanes, Rina. Mae'n amser i ti wneud dy ddewis.'

Synnai Rina'n fawr at eiriau ei mam. Teimlai'n swil, rhywsut. Trodd Sha at Gro a'i holi.

'Wel Gro, wnest ti ddangos y lle iddi, a'r Bobl?'

'Do, Eich Mawrhydi,' atebodd y blaid ifanc. 'Ond roedd y creaduriaid yn cysgu. Fel y maen nhw, yn y nos. Hy! Od iawn, ond dyna fo!'

Dechreuodd Sha ei haraith.

'Nawr dy fod ti'n saith oed, Rina, mae'n bryd i ti gael gwybod rhywbeth am bwy wyt ti. Rydym wedi bod yn trafod pryd fyddai'r amser gorau i ddweud, ond gan dy fod wedi dod i oed, mae'n iawn i ti gael gwybod y gwir. Rina annwyl, Dywysoges . . . *merch o blith y bobl wyt ti.*'

'A-a-w-w,' ategodd y Bleiddiaid, wrth iddynt deimlo i'r byw dros y ddwy, y fam a'r ferch.

'Tyrd yma, Dywysoges,' dywedodd Sha yn annwyl wrth Rina.

Dringodd hithau at ei mam ar y garreg uchaf lle safai Brenhines y Bleiddiaid. Roedd Rina wedi ei syfrdanu. Ni allai ddweud gair.

'Rwyd ti'n sylweddoli hynny, mae'n debyg, 'ndwyt ti?' dywedodd Sha. 'Ar ôl neithiwr, a dy - hmm - noson anffodus yn eu ffau ddieflig? Ond tydyn nhw ddim i gyd mor ddrwg â Brochwel, wyddost ti. Nac mor ffyrnig chwaith!'

'Wel, dyma sydd gennym ni fel Bleiddiaid i'w ofyn i ti, Rina: fe fuaset ti'n hoffi cael gwella dy droed dde 'n buaset ti? A dysgu sut i ysgrifennu?'

Petrusodd Rina. 'W-wel . . .' atebodd hi'n swil.

Yna daeth sŵn erchyll o'r pellter i foddi ei llais bach gwan.

'*Cor-w! Cor-w!*'

Cododd y Pwyllgor ar eu traed.

'Brochwel!' bloeddiodd Gro a'i griw o'r cefn.

Lledodd haul y wawr dros fryniau Maldwyn. Ciliodd cysgodion y nos.

'Brysiwch! I fynyr mynydd â ni!' gorchmynnodd Sha. 'Snwfflyn, cadwa di reit wrth fy nghwt i, ti'n deall? Gard! Cim! *Chwa-si!* Comandos gyntaf. A gwyliwch yr Eryr.'

Yna closiodd y Frenhines at ei merch yn sydyn.


'Rina, mentra di efo Gro, i lawr at y creigiau acw. Cuddiwch yn ofalus. Gwyliwch y Bobl. Gwyliwch rhag y cathod gwylltion, a'r nadroedd gwenwynig. *Www-a.* Ffarwél 'nghariad i. Dos di rŵan.' A daeth dagrau i lygaid Brenhines y Bleiddiaid.

Stelciodd y cnud ar hyd y llethrau. Chwythai awelon pur trwy'r dyffryn. Daeth Gro a Rina at bwl bach yn yr afon. Yno, roedd y dŵr yn glir fel gwydr.

'Sbia! Gei di weld dy lun yn fa'ma,' dywedodd Gro wrthi. 'Plyga i lawr at y dŵr yn ofalus!'

Mentrodd Rina at ymyl yr afon. Gwelodd greadures wyllt iawn yn sbecian yn ôl arni. Dim rhyfedd bod pobl y Llys wedi dychryn!

Roedd ganddi lygaid gwyrdd a gwallt brown



golau oedd yn saethu i fyny i bob cyfeiriad, a hwnnw'n llawn o glymau afiach.

Gwelodd bod ganddi drwyn smwt, un gwahanol iawn i Gro. Roedd ganddi geg wahanol hefyd, a thafod pinc, a dannedd gwyn, iach mewn dwy res syth, nid rhai miniog fel roedd gan y Bleiddiaid.

'Fi?' synnodd Rina ati'i hun. 'Fi ydi'r anghenfil yna? Nage wir, Gro. Ti'n dweud celwyddau!'

Closiodd y blaid ifanc ati a syrthiodd carreg i'r afon, gan gorddi'r dŵr yn aflonydd. Edrychent i lawr i'r dyfnderoedd gyda'i gilydd.

'Beth wyt ti'n weld, Rîn?' gofynnodd ei ffrind yn fwy caredig.

'Dwi ddim yn gwybod,' ategodd hithau'n drist. 'Mae gen ti ben, ac mae gen innau ben hefyd. Trwyn, clustiau, ceg – does dim llawer o wahaniaeth, nagoes?'

'Wel – mm – sbia! Mae'r dŵr yn clirio!' dywedodd y blaid.

Ac yn wir, wrth i'r dŵr lonyddu, roedd yn gwbl amlwg i'r ddau ohonynt bod yna wahaniaethau mawr rhyngddyn nhw.

'O! Dwi'n gweld . . .' Ystyriodd Rina y mater yn ofalus.

Syllodd yn hir ac yn flin ar ei llun yn y dŵr. 'Ych a fi! Tydw i ddim yn licio – HONNA! Dim rhyfedd dy fod ti a'r criw yn dweud mod i'n OD. O, be wna i?'

'Twt lol, ti ydi'r ffrind gorau ges i erioed, Rina. Cofia di hynny, am byth.'

17 – Hela'r Ysgyfarnog

'Cor-w! Cor-w!'

Carlamodd Brochwel a'i Helwyr yn nes, gyda'u ceffylau a'u cŵn. Chwilient am eu prae. Disgleiriai eu harfau a'u gwisgoedd yn yr haul. Coch, glas a gwyrdd. Aur ac arian. Haearn ac efydd, lledr a gwlân, ffwr a phlu.

Yn sydyn, sbonciodd yr Ysgyfarnog allan o'i ffau, sef hen dderwen yn pydru ar lan yr afon. Rhedai'r dŵr heibio'n fyrlymus. Sgrialodd yr Ysgyfarnog ar draws y mwd a'r cerrig mân. Bu bron iddi lithro i mewn i'r lli.

Gwelodd hi'r Helwyr yn agosáu. Rhedodd am ei bywyd at y bwthyn.

'Cor-w! Dacw hi!' bloeddiodd Brochwel, gan gychwyn ar ôl yr Ysgyfarnog.

Gwyliodd Rina a Gro yr olygfa o'r creigiau uwchben.

Clywson nhw garnau'r ceffylau'n taranu ar y ddaear, yr hebog yn crawcian, a'r cŵn yn anadlu, a'u tafodau'n glafoerio.

'Ar ei hôl hi!' Llais croch y Brenin eto.

Oedd yna unrhyw obaith achub yr Ysgyfarnog

druan? Doedd gan y greadures wirion ddim syniad lle i droi.

Yna, gwelsant y Dywysoges Melangell yn brysio allan o'r bwthyn. Heb fawr o ffwdan, dyma hi'n denu'r anifail ati'n dyner, yn ddistaw bach. Cuddiodd yr Ysgyfarnog yn sydyn o dan ei chlogyn a'i gwenwisc. Disgleiriai'r haul ar y groes aur o amgylch ei gwddw, ac ar donnau hir ei gwallt euraid.



'Aros di'n llonydd, Ysgyfarnog,' sibrydodd, 'gad y cyfan i mi.'

Safai Melangell yn urddasol wrth gyfarch y Brenin, fel pe bai dim byd o'i le.

Neidiodd Brochwel oddi ar ei geffyl, Oswyn, a chusanu ei llaw.

'Dydd da, Dywysoges. A! Llecyn braf. Braidd yn unig, efallai, i rywun mor ddel â chi! Tara hefyd, wrth gwrs. Ac mae'r bwthyn acw yn rhy fach o lawer i Dywysoges fel chi. Mewn palas y dylech chi fod!'

'Dydd da, Eich Mawrhydi. Fel hyn rydyn ni'n hoffi byw, yn syml braf yng nghanol prydferthwch Natur. Hoffech chi ddiod bach o lefrith gafr, a thafell o fara ffres?' gofynnodd Melangell yn gwrtais ac yn wên i gyd.

'Sbia,' sibrydodd Gro wrth Rina, o'u cuddfan. 'Mae hi'n gwybod yn iawn bod y Brenin yn sylweddoli ei bod hi'n cuddio'r Ysgyfarnog o dan ei chlogyn! Jôc dda!'

'Dwi'n gwybod hynny, y lobyn,' atebodd Rina. 'Ti'n meddwl 'mod i'n dwp, neu rywbeth?'

'Sori. Sbia, Rîn, mae'r llabwst gwirion 'na'n mynd i godi twrw eto.'

Ac yn wir, dyma'r Tywysog Cynan yn neidio'n chwim oddi ar ei geffyl. Gadawodd yr Hebog mewn cadwyni ar ei gyfrwy. Yna, cerddodd draw yn fygythiol at y Dywysoges, â'i law ar ei gleddyf.

'Hei! Mae 'na rywbeth yn symud o dan ei sgert hi!' bloeddiodd y bachgen gan brocian yn bowld o gwmpas traed Melangell.

Ar unwaith brysiodd y Tad Cadog – gŵr cryf a thal – i amddiffyn y Dywysoges, gan ddechrau chwyrlio'i gleddyf mawr haearn o gwmpas y lle.

Daliai'r Dywysoges i wenu'n gwrtais ac yn ddewr ar bawb, hyd yn oed yr Helwyr yn eu mygydau sinistr. Ni symudodd hi'r un cam. Ni ddywedodd hi'r un gair. Doedd gan y Brenin na'r Helwyr 'run syniad beth oedd ar ei meddwl!

'Y-y,' mwmianodd y Brenin, yn anghysurus. 'Cynan Garwyn! Mi ga i air efo ti yn nes ymlaen. Esgusodwch fy mab digywilydd, Dywysoges, wnewch chi?'

'Dim problem,' atebodd Melangell yn syth.

'Ac – y – o Dywysoges a-annwyl – y-ydych chi wedi *digwydd* gweld Ysgyfarnog o gwmpas y lle bore 'ma?' petrusodd y Brenin, yn llawn embaras. Roedd ganddo ofn gofyn iddi, bron. Roedd Melangell yn ddynes mor bwysig! Onid oedd ei thad yn frenin y Gwyddelod?

'Ysgyfarnog, Eich Mawrhydi?' gwenodd hithau'n ddireidus ar y Brenin, heb ofni dim.

'Ie. Mae'n hawdd ei hadnabod,' atebodd Brochwel, yn dechrau gwylltio. 'Clustiau hir. Coesau hir. Cynffon gwt. Wisgars?'

'Pa Ysgyfarnog, Eich Mawrhydi? Mae Cwm

Pennant yn llawn o Ysgyfarnogod! Fe wyddoch chi hynny'n iawn!' atebodd hithau. 'Ac rydyn ni i gyd yn byw yn hapus braf yma efo'n gilydd. Yn enwedig rŵan, ar ôl y gaeaf caled! Croeso i'r Abaty! Fi yw Abades newydd y lle yma.'

'Wel, fi pia Cwm Pennant,' atebodd y Brenin yn flin. 'Felly fi pia'r holl Ysgyfarnogod hefyd.'

Yr eiliad honno, cerddodd Tara allan o'r tŷ i'r haul gan gario plataid o fara ffres. 'Brecwast?' gofynnodd yn siriol wrth gamu i ganol y cwmni.

Merch dal, dywyll, hardd oedd Tara. Gwisgai ffrog las at ei thraed.

'Eisteddwch, Eich Mawrhydi. Pob un ohonoch chi,' dywedodd Melangell, wrth arllwys llefrith o lestr pridd i gwpanau Brochwel a Cynan Garwyn.

'Bwytwch a llawenhewch,' ategodd y Tad Cadog, gan gynnig llwyaid o'i fêl gorau i bawb.

Rhoddodd y Tywysog ifanc lwmpyn helaeth ohono ar ei frechdan, a sugno'i fysedd yn farus.

'Mm. Oglau da!' sibrydodd Rina wrth ei ffrind, yn eu cuddfan ymysg y creigiau. 'Biti na fuasai'r ddynes Tara 'na'n taflu peth o'r bara at yr adar bach, i ni gael 'i flasau o!'

'Gwranda Rîn,' dywedodd Gro yn gadarn. 'Mae gen i rywbeth pwysig iawn i'w ddweud wrtho ti. Tara ydi dy fam iawn di!'

'O!' criodd hithau mewn syndod. Ni allai ddweud mwy. Am sioc!

Tara? Yn fam iddi?

Syllodd Rina draw at y ddynes dal. Ei hwyneb. Ei dwylo. Ei gwallt a'i gwisg. Gwrandawai ar ei llais swynol. Na, na, na. Sha oedd ei mam. Ni wyddai Rina beth i'w feddwl, na'i deimlo, na'i ddweud, na dim.

Yma, yng Nghwm Pennant, roedd Brochwel yn wên o glust i glust. Ac er mawr syndod i bawb, daeth golwg garedig drosto. Dangosodd y dyffryn hardd i'r Dywysoges, fel pe bai o'n cynnig y cyfan iddi. Ac yn wir, dyna wnaeth o, yn y fan a'r lle. Cynnig y cyfan iddi. Roedd yr Abaty'n awr yn eiddo iddi hi, yr Abades, ac i'w ffrindiau, a'r holl dir o gwmpas yr Abaty hefyd, am byth.

Derbyniodd Melangell ei gynnig yn llawen, a chododd ei llaw arno i ffarwelio. Diolchodd iddo o waelod ei chalon. Diolchodd Tara a'r Tad Cadog hefyd, a holl anifeiliaid y maes. Yna rhedodd Tara tuag ato a gofyn rhywbeth yn daer iddo. Ysgydodd Brochwel ei ben yn ddiflas.

Yna, wrth i'r Brenin frysio i farchogaeth ei geffyl gyda'i Helwyr, gwaeddodd ar bawb mewn llais fel taran:

'Ie, wel . . . a sôn am eich Merch Wyllt chi, gyfeillion, cadwch olwg allan amdani! Does gen i ddim syniad lle mae hi erbyn hyn, y "broblem". Dyna fi'n dweud y gwir. Ond mi fydd hi'n siŵr o fentro yma cyn bo hir, efo'r bleiddiaid, i ddwyn ac i

ysbeilio. Fandaleiddio, curo drysau, sbio trwy'r ffenestri . . . hwyl fawr!

'Be mae o'n ddweud, sgwn i?' sibrydodd Rina.

'Rhegi mae'n siŵr,' atebodd Gro yn smala. 'Pwy a wŷr, gan nad ydi'r Ysbiwyr efo ni i egluro pethau. Ond mae o wedi dychryn Tara druan, mae'n amlwg.'

'Ydi wir. Sbia, Gro, mae hi'n crio. *A-aw*. Sgwn i pam?'

O'r diwedd carlamodd y cwmni brenhinol allan o'r cwm, i'r pellter, i gyfeiriad Llys Mathrafal.

'Wel, dyna i ti beth rhyfedd, Rîn,' dywedodd y blaidd ifanc, ar ôl i'r Brenin Brochwel a'i Helwyr fynd.

'Rhyfedd iawn,' ategodd hithau yn eu cuddfan ymysg y creigiau. 'Wyt ti'n meddwl 'i fod o'n trio plesio'r Dywysoges? A thrïo newid o fod yn ddrwg, i fod yn dda?'

'Gawn ni weld. Dyn brawychus ydi o, os wyt ti'n gofyn i mi. Brawychus iawn,' atebodd y blaidd ifanc yn dra sicr o'i bethau. 'Mae o wedi gwneud llawer o bethau fydden ni'r Bleiddiaid ddim yn breuddwydio'u gwneud.'

'Grr, digon gwir . . . Gro?' gofynnodd Rina'n boenus.

'Be sy? Ti'n edrych yn ddigon brawychus dy hun!'

'Dim byd.' Tyfodd y panig y tu mewn iddi'n fwy nag erioed. Teimlai fel petai ar fin byrstio. Teimlai

hi'n flin braidd efo'i ffrind, am iddo ei harwain ar y fath antur beryglus.

Pwy ydw i, felly? meddylïodd hi'n ofnus. Daeth pob mathau o gwestiynau i'w phen a'i drysu. Ac i bwy dwi'n perthyn?

I Hafgan? I Tara? A beth ydi fy enw i, Rina neu Rhian? Ai bleiddes ydw i, neu blentyn?

PWY AR Y DDAEAR YDI FY MAM IAWN I?

Ceisiodd dawelu ei hun, fel y dysgodd Sha a Ra iddi wneud.

Sgwn i, meddylïodd y fleiddes-ferch yn bwyllog, oes yna ateb arall i hyn i gyd, yn rhywle? Os felly, dim ond Sha fyddai'n gwybod. Roedd hi mor gall, mor ddewr! Roedd yn rhaid i Rina gael gwybod y gwir, a hynny ar unwaith.

Dihangodd hi'n syth i fyny'r mynydd, at y Bleiddiaid.

Gwibiodd Gro ar ei hôl, fel saeth. Neidiodd i'r blaen, fel arfer. Yn y pellter gwelson nhw Sha yn arwain y cnud dros yr ucheldir, i gyfeiriad Castell y Blaidd. Am eiliad, syllodd ei mam yn ei hôl, o'r mynydd. Yna, gwnaeth arwydd iddyn nhw frysio, a'u dilyn. Rhedodd y Frenhines ymlaen yn benuchel, a Snwfflyn wrth ei chwt, yn trotian ar hyd llwybrau'r defaid.

18 – Y Dibyn Serth

Ar eu taith, daeth y ffrindiau at ddibyn serth, gyda Gro yn arwain a Rina'n ei ddilyn fel arfer.

'Tyrd,' meddai'n hyderus. 'Ond paid â sbio i lawr!' Arhosodd amdani ar yr ochr arall.

Cripodd Rina ar ei ôl ar ei phedwar ar hyd y llethr uchel. Tyfai mwsogl ar wyneb y graig. Teimlai'n wlyb o dan ei bysedd a'i thraed noeth. Gwthiodd ei chrafangau i mewn i'r craciau bach yn y graig. Mentrodd ymlaen at y ddraenen a dyfai mewn lle mwy diogel. Roedd hi bron yna.

'Tyrd, Rîn. Un cam bach arall. Dau, efallai,' dywedodd Gro.

Roedd hi'n flinedig. Roedd hi wedi cael llond bol ar fyd y Bobl. Hiraethai am Sha a Snwfflyn. Hiraethai am gael tipyn o lonydd yn ei ffau, efo'i theganau, a'i ffwr a'i phlu.

Nid Tara oedd ei mam, siŵr iawn! A doedd y Telynor dieithr ddim yn dad iddi chwaith – doedd y peth ddim yn bosib!

Roedd Brochwel wedi'i thwylo. Hunllef oedd y cyfan. Nonsens llwyr.

'Brysia, Rina, mae dy fam yn galw!' criodd Gro.

'*Si-i-a-ch-ch!*' sgrechiodd cath wyllt o rywle, gan neidio'n syth o'i blaen.

Saethai ei blew i fyny mewn braw.

Bygythiai Rina â'i chrafangau.

'RHIAN!' galwodd Tara arni o'r cwm islaw.

Syllodd Rina i lawr. Dechreuodd ei phen droi, yn chwil. Dechreuodd hi grynu fel deilen yn y gwynt. Gwelodd y ddynes dal mewn ffrog las yn dringo i fyny'r mynydd, tuag ati. Tara! Morwyn y Dywysoges.



'O!' criodd Rina, ar ben y dibyn serth.

'Aros lle rwyd ti, pwrtan! Dos o 'ma, yr hen gath hyll!' gwaeddodd Tara.

'*Si-i-ch-ch!*' hisiodd y creadur gwyllt.

Neidiodd yn ffyrnig am Rina.

'GRRRAAWW! Ymladdwn!'

Sha!

Llamodd y Frenhines o'r creigiau, heibio'r Bleiddiaid, a thros y ddraenen. Glaniodd yn berffaith ar y llethr cul. Trodd i wynebu'r gath. Crafangodd honno hi, yn ei ffwr. Yna, anelodd y bwystfil am ei llygaid. Crafodd Sha yn ei hwyneb, nes ei bod yn gwaedu.

Gwthiwyd Rina yn erbyn y graig. Cyrcydodd yno'n stond, ar ei phedwar. Ofnai ddweud na gwneud dim.

Cythrodd Sha am wddw'r gath. Brathodd hi'n ffyrnig. Disgynnodd y bwystfil yn farw, a chwympo'n bendramwnwgl dros y dibyn serth.

'Aros lle rwyd ti, 'nghariad i,' dywedodd y Frenhines wrth Rina. 'Paid â symud. Dacw dy fam iawn di, yn dod atat ti, i ofalu amdanat. Ffarwél Rina, Trysor y Deyrnas.'

Cyrhaeddodd Tara at y graig o'r diwedd a phlygu i lawr wrth ochr ei phlentyn. Gafaelodd ynddi'n ofalus.

'Tyrd, yr aur, efo fi,' meddai mewn llais caredig.

Llamodd Sha yn ôl at y cnud, yn ei dagrau.

Cydiodd yn dynn yn Snwfflyn. Yna arweiniodd y Bleiddiaid ymlaen ar eu taith, yn ddewr ac yn ddi-droi'n-ôl.

O ben y mynydd, a haul y dydd yn disgleirio uwchben, safai Sha i wyllo'i merch. Cododd ei phawen arni, o bell. Cododd Snwfflyn ei bawen yntau. Aer ei theyrnas. Teyrnas y Bleiddiaid.

'*A-i-s! Ss-ââ-ss!* Sori pwrtan!' udodd Sha ar draws y dyffryn. Ac yn wir, roedd yn chwith ganddi adael Rina. '*Www-a.* Ffarwél.'

'*Iac iac.* *Www-a,*' ategodd Snwfflyn.

'*Iac iac.* *Www-a,*' galwodd y Bleiddiaid i gyd.

Ac o'r dydd hwnnw ymlaen, dyna'r sŵn udo a glywai Rina bob nos, dros y cwm tawel, ar drawiad cloch yr eglwys, yna '*Aa-i-w-w!*'

'Tyrd adref, pwrtan,' dywedodd Tara wrth Rina, wrth iddi geisio ei pherswadio. 'Weli di Seren i lawr acw? Yn dy ddisgwyl di? RHIAN - ti. MAM - fi.'

Deallodd Rina, o'r diwedd, a chofiodd. Cofiodd berarogl ei lafant arni, ac oglau a blas ei bara ffres. Bwyd solet cyntaf Rina'n fabi, erstalwm!

Gafaelodd ei mam yn dynn yn ei llaw, a gwenu arni'n gariadus. 'Tyrd adref efo fi, wnei di?' meddai unwaith eto. 'Paid â bod ofn. Mi ddysga i bopeth i ti o'r newydd - sut i gerdded yn syth, a sut i siarad, a reidio dy geffyl yn iawn. Iawn?'

'*I-i-a-a-w-w-n-n,*' atebodd y plentyn. Beth oedd y ddynes yn ei ddweud, tybed? Rhywbeth hwyliog,

mae'n amlwg, ac eithaf pleserus. Antur newydd, efallai?

Gwenodd y fleiddes-ferch yn ôl arni a chropian tuag ati ar ei phedwar. Ogleuodd wisg y ddynes yn fusneslyd, a'i chyffwrdd fel anifail.

Chwarddodd Tara. 'O, 'mechan i! Lle wyt ti 'di bod?'

Chwarddodd Rina hefyd. Yna, dechreuodd fewian am ei bwyd, fel babi unwaith eto, fel Snwfflyn!

'Brysia 'nghariad i. Gei di ymolchi mewn twba mawr o ddŵr wrth y tân, ac yna llond bol o fwyd blasus a gwely cynnes, glân, ac mi ga i dy hanes di i gyd o'r dechrau i'r diwedd!' parablodd Tara wrth iddi helpu ei merch i lawr o'r creigiau at y llwybr diogel.

'*Iac-iac*,' cytunodd y plentyn yn llawen, yn iaith y Bleiddiaid.

'*Iac-iac*, wir!' meddai Tara'n ddireidus.

Yna, cofiodd Rina hi. Cofiodd bopeth.

'MAM,' bloeddiodd dros y lle, wrth iddi syllu i fyny at ei mam iawn.

Plygodd Tara i lawr ati a'i chofleidio'n annwyl. Closiodd y plentyn i'w chôt, yn hapus braf. Yna, cerddodd y ddwy ar hyd lwybr y dyffryn yn hwyliog, ar eu pedwar, gyda'i gilydd o'r diwedd.

SW. GOD

CASTELL Y BLAIDD

Mae'r bleiddiaid yn stelcian ar y mynyddoedd,
yn udo am waed, yn ysu am frwydr. Mae'r haul a'r lloer
a'r sêr wedi diflannu o'r nen. Yn y carchar mae pobl yn
llwgu ac yn cael eu poenydio. A beth sydd wedi digwydd i
Rina? Pam nad yw bellach yn gallu siarad iaith pobl?
Pam na all gofio yr hyn a ddigwyddodd cyn yr eira mawr?
Ai CASTELL Y BLAIDD fydd ei chartref am byth?

Glenys Mair Lloyd

Mae Glenys Mair Lloyd yn awdures
boblogaidd sydd wedi cyhoeddi sawl
nofel i blant megis *Rhyfel Sam* a
Bargen y Brenin. Dyma nofel gyffrous
arall fydd yn herio'r dychymyg ac
yn hoelio sylw.



ISBN 1-84323-341-X



9 781843 233411



Llun y clawr: Janet Samuel
Cyhoeddwyd: Gwasg Gomer
Llandysul, Ceredigion SA44 4JL
www.gomer.co.uk

£4.99